Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 58/2026

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2026

# Adolygiad o'r Cynllun Peilot Derbyn Budd-daliadau dan Arweiniad Data Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-348-1

Adolygiad o’r Cynllun Peilot Derbyn Budd-daliadau dan Arweiniad Data Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Awduron:

alma economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Adolygiad o’r cynllun peilot derbyn budd-daliadau dan arweiniad data awdurdodau lleol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 58/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Barn yr ymchwilydd yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:


Nerys Owens

Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: SocialJusticeResearch@gov.wales

## Tabl Cynnwys

Geirfa ........................................................................................................3

Crynodeb Gweithredol ..............................................................................................4

1. Cyflwyniad ..............................................................................................7

1.1. Cyd-destun y prosiect ..............................................................................................7
1.2. Yr ymchwil hwn ..............................................................................................8
1.3. Strwythur yr Adroddiad ..............................................................................................8

2. Methodoleg ..............................................................................................9

2.1. Dull cyffredinol ..............................................................................................9
2.2. Cwestiynau ymchwil ..............................................................................................9
2.3. Cam 1 - Dull methodolegol ..............................................................................................10
2.3.1. Adolygiad desg o dystiolaeth a data ..............................................................................................10
2.3.2. Cyfweliadau cwmpasu ..............................................................................................11
2.3.3. Damcaniaeth Newid ..............................................................................................11
2.3.4. Cyfweliadau gydag awdurdodau lleol ..............................................................................................12
2.3.5. Grŵp ffocws gyda sefydliadau cymorth a chyngor ..............................................................................................12
2.4. Cam 2 - Dull methodolegol ..............................................................................................13
2.4.1. Dadansoddi data monitro ..............................................................................................13
2.4.2. Cyfweliadau dilynol gydag awdurdodau lleol ..............................................................................................13
2.4.3. Dadansoddi data eilaidd ..............................................................................................13
2.4.4. Dadansoddiad o gyfraniad ..............................................................................................14
2.4.5. Astudiaethau achos ..............................................................................................14

3. Damcaniaeth Newid ..............................................................................................15

4. Canfyddiadau ..............................................................................................17

4.1. Cyd-destun: Lefelau derbyn budd-daliadau, a rhwystrau rhag derbyn budd-daliadau ..............................................................................................17
4.2. Teipoleg awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan ..............................................................................................19
4.3. Gweithgareddau – Cynefino â'r cynllun peilot ..............................................................................................21
4.4. Gweithgareddau – Nodi unigolion cymwys nad ydynt yn hawlio ..............................................................................................23
4.5. Allbynnau – Ymgyrchoedd cyfathrebu ..............................................................................................27
4.6. Effeithiau - Derbyn ac eraill ..............................................................................................31

5. Astudiaethau Achos ..............................................................................................38

5.1. Astudiaeth achos A ..............................................................................................38

5.2. Astudiaeth achos B....39
5.3. Astudiaeth achos C....41
6. Casgliadau a Gwersi a Ddysgwyd....43
Atodiad A – Holiadur ar gyfer cyfweliadau cwmpasu (ac eithrio Policy in Practice)....46
Atodiad B – Holiadur ar gyfer cyfweliadau cwmpasu gyda Policy in Practice....48
Atodiad C – Holiadur ar gyfer cyfweliadau gydag Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan....50
Nodau a blaenoriaethau....50
Atodiad D – Holiadur ar gyfer cyfweliadau gydag Awdurdodau Lleol nad ydynt yn cymryd rhan....52
Atodiad E – Holiadur ar gyfer cyfweliadau dilynol gydag Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan....54
Atodiad F – Canllaw trafod ar gyfer grŵp ffocws gyda sefydliadau cyngor a chymorth....57

## Geirfa

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**

Y DWP yw adran llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am les, pensiynau, a chefnogi pobl i waith.

**Prydau Ysgol am Ddim (FSM)**

Budd-dal sy’n darparu prydau ysgol am ddim i blant cymwys, fel arfer yn seiliedig ar incwm y cartref neu ar dderbyn budd-daliadau cymhwysol, gyda’r nod o gefnogi plant o deuluoedd incwm isel a gwella canlyniadau addysgol.

**Cyllid a Thollau EF (CThEF)**

Awdurdod trethi, taliadau a thollau’r DU yw CThEF. Hon yw’r adran yn Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am ymdrin â threthi ac am reoleiddio Yswiriant Gwladol, ymhlith swyddogaethau ariannol eraill.

**Offeryn tracio teuluoedd incwm isel (LIFT)**

Mae’r Offeryn Tracio Teuluoedd Incwm Isel (LIFT) yn offeryn dadansoddi data sy’n galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio’r data maen nhw’n ei gasglu i nodi a thargedu trigolion lleol sy’n colli allan ar eu hawliau.

**Credyd Pensiwn (PC)**

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal sy’n gysylltiedig ag incwm sy’n ychwanegu at incwm wythnosol pensiynwyr sydd ar incwm isel.

**Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)**

Budd-dal i bobl â chyflwr neu nam iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, sy’n darparu cymorth ariannol ar gyfer costau ychwanegol bywyd bob dydd a/neu anghenion symudedd.

**Policy in Practice**

Mae Policy in Practice yn sefydliad dadansoddi data a pholisi cymdeithasol sy’n darparu platfform LIFT ar gyfer y cynllun peilot hwn.

**Grant Hanfodion Ysgol (SEG)**

Grant gan Lywodraeth Cymru sy’n helpu teuluoedd cymwys ar incwm isel gyda chost hanfodion ysgol, megis gwisgoedd ysgol, esgidiau ac offer.

**Damcaniaeth Newid (ToC)**

Fframwaith cynhwysfawr, gweledol a thraethiadol sy’n egluro sut a pham y disgwylir i newid hirdymor dymunol ddigwydd mewn cyd-destun penodol.

**Credyd Cynhwysol (UC)**

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd sy’n darparu cymorth ariannol i bobl sydd ar incwm isel neu allan o waith.

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Mae lefel isel o bobl sy'n derbyn hawliadau yn her barhaus mewn systemau nawdd cymdeithasol sy'n dibynnu ar brawf modd, sy'n dominyddu'r System Budd-daliadau yng Nghymru yn ogystal â'r system wedi'i chadw'n ôl. Er enghraifft, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu mai dim ond tua 62% o'r bobl sydd â hawl i Gredyd Pensiwn (PC) sy'n ei hawlio (DWP, 2025). Gellir mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag derbyn bydd-daliadau - yn enwedig ymwybyddiaeth a chymhlethdod - drwy ddefnyddio data yn fwy effeithiol, sy'n caniatáu nodi pobl sy'n debygol o fod yn gymwys ond nad ydynt yn ei dderbyn, eu hysbysu, ac o bosibl eu cefnogi i wneud hawliad. Mae gwella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau a manteisio i'r eithaf ar incwm yn ehangach yn flaenoriaeth graidd i Lywodraeth Cymru.

Mae Policy in Practice, cwmni meddalwedd a dadansoddi polisi cymdeithasol, wedi datblygu'r Offeryn Tracio Teuluoedd Incwm Isel (LIFT), sef platfform sy'n galluogi awdurdodau lleol i nodi a thargedu trigolion ac aelwydydd sy'n ariannol fregus yn rhagweithiol ac sy'n debygol o fod yn gymwys i gael hawliau i fudd-daliadau (datganoledig neu wedi'u cadw'n ôl) ond nad ydynt yn eu hawlio. Ariannodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot lle darparwyd trwyddedau i blatfform LIFT i 12 o awdurdodau lleol Cymru rhwng mis Ionawr 2025 a mis Mawrth 2026. Roedd dau awdurdod lleol arall hefyd yn gweithio gyda platfform LIFT yn ystod y cyfnod hwn, ond nid oeddent yn cael eu hariannu drwy'r cynllun peilot.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio gweithrediad platfform LIFT mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a gymerodd ran, effeithiolrwydd defnyddio dadansoddi data ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, a'r ffactorau'r sy'n dylanwadu ar effaith y cynllun peilot. Drwy hyn, mae'n asesu effeithiolrwydd dadansoddi data fel offeryn i fanteisio i'r eithaf ar incwm. Defnyddiwyd dulliau cymysg, gan gynnwys adolygiad desg o dystiolaeth a data, cyfweliadau cwmpasu, a datblygu Damcaniaeth Newid (ToC). Roedd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cynnwys cyfweliadau manwl gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, grŵp ffocws gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymorth, a chyfweliadau dilynol gydag awdurdodau lleol. Yn y pen draw, fe wnaethom asesu cyfraniad tebygol y cynllun peilot i wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau a chanlyniadau cysylltiedig. Roedd yr ymchwil yn cynnwys dadansoddiad cyfraniad strwythuredig, wedi'i lywio gan y ToC, ac yn defnyddio tystiolaeth feintiol a mewnwelediadau o gyfweliadau i ategu tystiolaeth cysylltiedig ag effaith.

## Teipoleg o awdurdodau lleol

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ar draws y gwaith, fe wnaethom nodi 3 math eang o awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan, yn ôl eu profiadau o'r cynllun peilot. Awdurdodau lleol Math A oedd y rhai hynny a brofodd yr anawsterau mwyaf wrth roi'r platfform ar waith a gwneud defnydd effeithiol ohono. Roedd y math hwn yn cynnwys y lleiafrif o awdurdodau lleol. Awdurdodau lleol Math B oedd y rhai oedd yn gallu defnyddio'r offeryn a chynnal ymgyrchoedd ond oedd yn wynebu cyfyngiadau capasiti, gan eu harwain i adrodd y byddai defnydd parhaus yn dibynnu ar p'un a yw'r buddsoddiadau angenrheidiol yn gymesur â'r

manteision. Yn olaf, achosion Math C oedd y mwyaf llwyddiannus, yn cynrychioli awdurdodau lleol a gafodd brofiad cadarnhaol iawn gyda'r platfform ac sydd yn awyddus i barhau i'w ddefnyddio.

**Gweithredu**

Yn gyffredinol, y broses gynefino ddaeth i'r amlwg fel y rhan fwyaf heriol, a dyma lle'r oedd awdurdodau lleol fwyaf tebygol o wynebu problemau oedd yn arafu cynnydd ac effaith. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd rhaid i awdurdodau lleol adeiladu capasiti mewnol, gan gynnwys creu swyddi newydd, ailddyrannu staff, a pharatoi timau, oedd yn aml yn golygu fod angen amser ac adnoddau sylweddol cyn y gellid dechrau defnyddio'r offeryn yn llawn. Hefyd, roedd oedi wrth gymeradwyo a chyflwyno data yn golygu bod awdurdodau lleol wedi dechrau defnyddio LIFT ar adegau gwahanol, gan gyfyngu ar y cyfnod o ddata cyson oedd ar gael ar gyfer monitro ac ymgysylltu â phobl nad oeddent yn hawlio budd-daliadau. Cafodd y cam hwn ei nodweddu gan y cymorth pwysig a ddarparwyd gan Policy in Practice i helpu awdurdodau lleol i lywio cytundebau rhannu data cymhleth, prosesau cymeradwyo mewnol, a phrosesau anghyfarwydd.

Unwaith y sefydlwyd yr offeryn, roedd LIFT yn galluogi awdurdodau lleol i dracio pobl gymwys nad oeddent yn hawlio a thargedu allgymorth yn fwy effeithiol. Fe wnaeth yr offeryn leihau'r baich gweithredol ar dimau Refeniw a Budd-daliadau a chaniatáu i awdurdodau lleol ddibynnu mwy ar dystiolaeth ac yn llai ar ragdybiaethau. Fodd bynnag, y cam hwn wnaeth arddangos yr amrywiad mwyaf o ran llwyddiant ar draws awdurdodau lleol. Yn y pen draw, mae llwyddiant offerynnau fel LIFT yn dibynnu'n fawr ar gapasiti staff digonol a'r setiau sgiliau priodol, i ddadansoddi'r data ac i weithredu arno.

Yn bennaf roedd ymgyrchoedd cyfathrebu ar ffurf anfon llythyrau, ond ategwyd y rhain yn aml gyda negeseuon testun, galwadau ffôn, ymweliadau wyneb i wyneb, ac ymgyrchoedd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd ehangach, fel negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol neu hysbysebion mewn safleoedd bysiau. Mae'r dulliau ymgysylltu wedi'u dylunio'n ofalus gan awdurdodau lleol, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ymgyrchoedd blaenorol, yn ogystal â gwersi a ddysgwyd gan awdurdodau lleol eraill drwy'r rhaglen ddeufisol a chyfarfodydd arfer gorau. Dechreuodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yr ymgysylltu drwy dargedu PC, ond wedyn roeddent yn aml yn ehangu i fudd-daliadau eraill hefyd, megis Lwfans Gweini neu Fudd-dal Tai i bensiynwyr.

Fodd bynnag, ar ei ben ei hun mae cyfyngiadau i gyfathrebu fel teclyn i ysgogi ymgysylltu a chynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau. Teimlai awdurdodau lleol fod ymgysylltu mwy dwys, ac wedi'i dargedu'n fwy yn well nag anfon llythyrau ehangach gyda chymorth neu gymorth dilynol cyfyngedig. Daeth diffyg ymddiriedaeth trigolion yn y cyfathrebu hefyd i'r amlwg fel ffactor a oedd yn cyfyngu ar ymgysylltu, gyda rhai derbynwyr yn ansicr a oedd yr ohebiaeth yn ddilys. Roedd yn ymddangos bod cyfeirio at y cymorth sydd ar gael gan Cyngor ar Bopeth yn helpu i gynyddu hygrededd. Yn y modd hwn, mae awdurdodau lleol wedi dysgu a mireinio eu dulliau dros amser, gan ystyried yr adborth a gawsant gan hawlwyr posibl a gan sefydliadau cymorth a chyngor.

**Effeithiau**

Mae gan awdurdodau lleol ffyrdd amrywiol o asesu effeithiau tebygol eu hymgyrchoedd eu hunain ar y nifer sy'n derbyn budd-daliadau, gan gynnwys ffigurau a adroddir gan sefydliadau cymorth, ymdrechion â llaw i gysylltu amseru'r ymgyrchoedd ag amseru hawliadau, a Thraciwr Canlyniadau LIFT. Serch hynny, roedd y ffigurau wnaethon nhw eu rhoi i ni yn tueddu i fod yn weddol gyson â'i gilydd. Ar gyfartaledd, dywedodd awdurdodau lleol wrthym fod pob un ohonynt wedi targedu rhwng 100 a 250 o aelwydydd nad oeddent yn hawlio ym mhob ymgyrch, gyda thua 15% o'r aelwydydd hynny wedi cael dyfarniad budd-dal yn y pen draw yn dilyn yr ymgyrch. Byddai hyn yn cyfateb i gyfartaledd o tua 20 o daliadau fesul awdurdod lleol yn dilyn ymgyrch.

Nid yw data cyfres amser ar hawliadau a dyfarniadau PC mewn awdurdodau lleol yng Nghymru yn dangos gwahaniaethau sylweddol nag amlwg yn y tueddiadau rhwng awdurdodau lleol Cymru a gymerodd ran a'r rhai na chymerodd ran hyd at fis Tachwedd 2025 (y data diweddaraf oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad). Mae hyn yn gyffredinol gyson â'r amcangyfrifon bras o effeithiau ymgyrchoedd cyfathrebu a adroddwyd gan awdurdodau lleol (uchod), a fyddai'n fach o'i gymharu â llif nodweddiadol cyfanswm hawliadau budd-daliadau newydd, neu â maint gyffredinol diffyg derbyn budd-daliadau. Serch hynny, roedd awdurdodau lleol yn tueddu i ystyried yr effeithiau hyn yn rhai gwerthfawr iawn ac yn rhywbeth a fyddai wedi bod yn anodd ei gyflawni heb y LIFT.

**Casgliad**

Er bod y cynllun peilot angen amser sylweddol i'w sefydlu, cyfnod cynefino, a chapasiti staff digonol i ddefnyddio'r platfform yn effeithiol, mae'r gofynion cychwynnol hyn yn awgrymu bod y buddsoddiad yn debygol o gynhyrchu buddion tymor hwy. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi dysgu gwersi gwerthfawr ynghylch sut i ddefnyddio data ac offer dadansoddol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, ac o ganlyniad byddant yn gallu gwneud hynny'n fwy effeithiol yn y dyfodol. Mae rhai hefyd wedi darganfod defnyddiau ychwanegol y tu hwnt i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, gan nodi aelwydydd a allai elwa o gymorth neu wasanaethau eraill. Yn gysylltiedig â hyn, mae'n bosibl iawn felly y bydd yr effeithiau a alluogwyd gan y cynllun peilot yn parhau i dyfu. Byddai hyn yn cael ei wella ymhellach pe bai'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot, megis y rhai a ddatgelwyd yn yr adroddiad hwn, yn llywio ac yn mireinio ymdrechion yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae LIFT yn dangos y gall dulliau sy'n seiliedig ar ddata wella targedu ac effeithlonrwydd gweithredol, ond mae awdurdodau lleol angen digon o staff, adnoddau, a chymorth parhaus i wireddu ei botensial yn llawn.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Cyd-destun y prosiect

Mae lefel isel o bobl sy'n derbyn hawliadau yn her barhaus mewn systemau nawdd cymdeithasol sy'n dibynnu ar brawf modd, sy'n dominyddu'r System Budd-daliadau yng Nghymru yn ogystal â'r system ehangach yn y DU. Er enghraifft, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu mai dim ond tua 62% o'r bobl sydd â hawl i PC sy'n ei hawlio (DWP, 2025). Er nad oes amcangyfrifon swyddogol ar gyfer cyfraddau derbyn Credyd Cynhwysol (UC), sydd bellach y prif fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd yn y DU i bobl o oedran gweithio, mae ffigurau o ganol y 2010au ar gyfer yr hen fudd-daliadau sydd wedi cael eu disodli ganddo yn dangos bod diffyg derbyn yn sylweddol, ac yn cyrraedd hyd at tua 50% yn achos Lwfans Ceisio Gwaith.

Fel sydd wedi'i amlygu yn Deaton Review of Inequalities (2024) gan Institute for Fiscal Studies, mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos y gall peidio derbyn hawliadau gael ei ysgogi gan ffactorau megis diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth, cymhlethdod a baich gweinyddol gwneud hawliad (yn enwedig pan fo angen gwneud nifer o hawliadau), a'r stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. Gellir mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag derbyn eu hawliau - yn enwedig ymwybyddiaeth a chymhlethdod - drwy ddefnyddio data yn fwy effeithiol, sy'n caniatáu nodi pobl sy'n debygol o fod yn gymwys ond nad ydynt yn ei dderbyn, eu hysbysu, ac o bosibl eu cefnogi i wneud hawliad, efallai hyd yn oed drwy awtomeiddio rhan o'r broses.

Mae gwella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau a manteisio i'r eithaf ar incwm yn ehangach yn flaenoriaeth graidd i Lywodraeth Cymru. Mae'r nodau hyn wedi'u hymgorffori yn Siarter Budd-daliadau Cymru a lansiwyd ym mis Ionawr 2024, sy'n nodi'r egwyddorion arweiniol sy'n angenrheidiol ar gyfer dylunio a chyflwyno System Budd-daliadau Cymru sy'n fwy cydlynol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn hygyrch. Mae'r prosiect Symleiddio Budd-daliadau Cymru yn enghraifft flaenllaw o fenter sy'n mynd ar drywydd y nod hwn, gan anelu at leihau nifer y troeon mae'n rhaid i bobl ddarparu'r un wybodaeth er mwyn hawlio gwahanol fathau o gymorth, gan ganolbwyntio'n benodol ar wahanol elfennau System Budd-daliadau Cymru.

Mae Policy in Practice, cwmni meddalwedd a dadansoddi polisi cymdeithasol, wedi datblygu'r LIFT, sef platfform dadansoddi data sy'n defnyddio gwybodaeth am fuddiolwyr Budd-dal Tai, y Cynllun Gostyngiad yn y Dreth Gyngor, ac UC. Mae'r platfform yn galluogi awdurdodau lleol i nodi a thargedu trigolion ac aelwydydd sy'n ariannol fregus yn rhagweithiol ac sy'n debygol o fod yn gymwys i gael hawliau i fudd-daliadau (datganoledig neu wedi'u cadw'n ôl) ond nad ydynt yn eu hawlio.

Ariannodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot lle rhoddwyd trwyddedau i'r platfform LIFT i 12 o awdurdodau lleol yng Nghymru (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Fynwy a Thorfaen (gwasanaeth a rennir), Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Powys, Wrecsam, Rhondda Cynon Taf) rhwng mis Ionawr 2025 a mis Mawrth 2026 (roedd y drwydded yn wreiddiol yn cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Ionawr 2026, ond cyhoeddodd Llywodraeth Cymru estyniad o 2 fis ar ddechrau mis Ionawr). Roedd Sir

Benfro a Gwynedd hefyd yn gweithio gyda platfform y LIFT, ond nid oeddent yn cael eu hariannu drwy'r cynllun peilot.

Nod y cynllun peilot oedd archwilio effeithiolrwydd defnyddio dadansoddi data mewn awdurdodau lleol i wella'r nifer sy'n derbyn hawliadau budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd datganoledig a rhai wedi'u cadw'n ôl, ac i bae raddau mae defnyddio offeryn fel LIFT yn helpu i nodi a chysylltu â thrigolion sy'n colli allan ar eu hawliau i gymorth ariannol.

## 1.2. Yr ymchwil hwn

Ceisiodd y prosiect hwn archwilio: (i) gweithrediad platfform LIFT mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a gymerodd ran, gan gynnwys rhwystrau a heriau ymarferol a gweithredol; (ii) effeithiolrwydd cynllun peilot LIFT o ran cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau; a'r (iii) ffactorau sy'n dylanwadu ar effaith y cynllun peilot. Drwy gydol y prosiect, roedd ffocws ar nodi gwersi ac enghreifftiau o arfer gorau a all lywio Cymru gyfan ynghylch potensial mentrau seiliedig ar ddata er mwyn cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau.

Cyflawnwyd y prosiect hwn mewn dau gam:

Yn gyntaf, roedd **Cam 1** yn cynnwys cyfweliadau cwmpasu ac adolygiad desg o dystiolaeth a data, gan gynnwys rhwystrau i dderbyn hawliadau, beth sy'n gweithio i fynd i'r afael â lefelau isel o dderbyn, a rôl mentrau derbyn sy'n seiliedig ar ddata. Fe lywiodd hyn ddatblygiad ToC, wnaeth ddarparu fframwaith trefnu ar gyfer y strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod Camau 1 a 2, a'r dadansoddiad o gyfraniad a gynhaliwyd fel rhan o Gam 2. Roedd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Ngham 1 yn cyfuno cyfweliadau ag arweinwyr cynllun peilot LIFT mewn awdurdodau lleol a grŵp ffocws gyda sefydliadau cymorth a chyngor. Drwy hyn, fe wnaethom archwilio gweithrediad y cynllun peilot yn fanwl.

Dechreuodd **Cam 2** gyda chyfweliadau dilynol gydag awdurdodau lleol, gan gasglu mewnwelediadau manwl am effeithiau'r cynllun peilot. Roedd hefyd yn cynnwys dadansoddi data monitro a dadansoddi eilaidd. Yn y bôn, yn ystod y cam hwn, fe wnaethom fabwysiadu dull dadansoddi cyfraniad, wedi'i lywio gan y ToC, i adolygu i ba raddau tebygol mae'r cynllun peilot wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan ddefnyddio tystiolaeth feintiol a mewnwelediadau o'n gwaith maes. Roedd Cam 2 hefyd yn cynnwys datblygu 3 astudiaeth achos awdurdodau lleol i dynnu sylw at ddysgu ac arfer gorau sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol.

## 1.3. Strwythur yr Adroddiad

Nod yr adroddiad hwn yw crynhoi holl gyd-destun, dulliau a chanfyddiadau'r prosiect. Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn disgrifio'r dull methodolegol a ddefnyddiwyd yng Nghamau 1 a 2
- Mae Pennod 3 yn disgrifio'r ToC

- Mae Pennod 4 yn cyfosod y canfyddiadau ynghylch rhoi'r cynllun peilot ar waith a'i allbynnau ac effeithiau cysylltiedig. Mae'n dechrau gyda thopoleg o awdurdodau lleol ac yna'n cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer pob cam o'r ToC, gan gynnwys gwahaniaethau a ganfuwyd ar draws mathau o awdurdodau lleol

- Mae Pennod 5 yn manylu ar 3 astudiaeth achos, gan grynhoi profiadau ar draws camau'r cynllun peilot, gan gynnwys ei ddechrau, y defnydd o'r platfform, a'r ymgyrchoedd a'u heffeithiau

- Mae Pennod 6 yn cynnig casgliad a gwersi a ddysgwyd yn seiliedig ar y canfyddiadau ar draws y ddau gam i asesu effeithiolrwydd cynllun peilot yr LIFT

- Mae'r Atodiadau yn cynnwys yr holl ddeunyddiau gwaith maes

# 2. Methodoleg

## 2.1. Dull cyffredinol

Mae'r adran hon yn nodi'r dull methodolegol ar gyfer Camau 1 a 2. Defnyddiwyd dulliau cymysg, gan gynnwys adolygiad desg o dystiolaeth a data, cyfweliadau cwmpasu, datblygiad ToC, cyfweliadau manwl gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, a grŵp ffocws gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymorth. Cafwyd hi'n anodd recriwtio hawlwyr budd-daliadau ar gyfer cyfweliadau, ond casglwyd mewnwelediadau ar y rhwystrau a'r ffactorau galluogi sy'n effeithio ar hawlio hawliadau, a'u hymatebion i'r ymgysylltu gan awdurdodau lleol, drwy ein cyfweliadau ag awdurdodau lleol a'r grŵp ffocws gyda sefydliadau cymorth a chyngor.

Yng Ngham 2, fe wnaethom asesu cyfraniad tebygol y cynllun peilot at wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau a chanlyniadau cysylltiedig, gan gynnwys llai o stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau, mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, a lles ariannol gwell. Roedd yn cynnwys dadansoddiad cyfraniad strwythuredig, wedi'i lywio gan y ToC, ac yn defnyddio tystiolaeth feintiol a mewnwelediadau o gyfweliadau i ategu tystiolaeth cysylltiedig ag effaith a gasglwyd yng Ngham 1.

Mae'r adroddiad terfynol yn dwyn ynghyd y canfyddiadau o'r ddau gam, ar y broses ac effaith. Hefyd, mae'n cynnwys 3 astudiaeth achos awdurdod lleol i amlygu arfer gorau y gellir eu cymhwyso ar draws awdurdodau lleol.

## 2.2. Cwestiynau ymchwil

- Pa amrywiadau sydd yn amcanion, dyluniad, a chyflwyniad y cynllun peilot ar draws yr awdurdod lleol sy'n cymryd rhan? Mae hyn yn cynnwys y prif grwpiau targed ar gyfer ymyriadau i gynyddu derbyn, a'r mecanweithiau a ddefnyddiwyd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn (e.e., rhoi gwybod am gymhwystra tebygol, cyfeirio at wasanaethau cymorth neu gyngor, awtomeiddio prosesau hawlio)

- Beth yw'r rhwystrau mae'r cynllun peilot yn ceisio cael gwared arnyn nhw? Pa achosion o ddiffyg derbyn mae'n anelu at roi sylw iddynt?

- Beth sy'n atal awdurdodau lleol rhag rhoi sylw i'r problemau hyn heb offeryn trydydd parti?
- Pa nodweddion dylunio a gweithredu sy'n ymddangos i wneud y cynllun peilot yn fwy effeithiol, sydd angen gwella, a pham?
- Pa heriau ymarferol sydd angen eu goresgyn, ac a ellir eu goresgyn yn fwy effeithiol? Byddai hyn yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol a gweithredol ar gyfer rhannu data, capasiti staff, a hyfforddiant ar sut i drin y data yn ddiogel ac anghyflawnder neu amherffeithrwydd yn y data
- Beth oedd profiad hawlwyr posibl y cysylltwyd â nhw ar sail y cynllun peilot hwn, a pha rwystrau y mae wedi'u dileu neu nad yw wedi eu dileu ar eu cyfer?
- Beth oedd effeithiau'r cynllun peilot o ran derbyn ac enillion ariannol ar gyfer yr aelwydydd dan sylw?
- Ydy'r cynllun peilot wedi cael effeithiau ehangach y tu hwnt i dderbyn budd-daliadau (e.e. mwy o ymddiriedaeth yn y llywodraeth, cyfeirio at fathau ehangach o gymorth neu wasanaethau cynghori, gostyngiadau mewn teimladau o stigma, gwell lles ariannol)?

## 2.3. Cam 1 - Dull methodolegol

### 2.3.1. Adolygiad desg o dystiolaeth a data

Cynhaliwyd adolygiad desg o dystiolaeth a data i gefnogi Cam 1 yr adolygiad, yn cwmpasu 3 maes allweddol. Yn gyntaf, adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth i archwilio'r rhwystrau lluosog i dderbyn budd-daliadau ac ymyriadau sydd wedi bod yn effeithio wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn. Roedd yr adolygiad yn cynnwys darlleniad manwl o 11 papur ac fe helpodd hyn i osod rôl bosibl mentrau sy'n seiliedig ar ddata wrth oresgyn rhwystrau i dderbyn budd-daliadau, yn ogystal ag i nodi eu cyfyngiadau. Er enghraifft, pan fo diffyg ymwybyddiaeth o hawliadau yn rhwystr allweddol, gall awdurdodau lleol gael effeithiau sylweddol ar y nifer sy'n derbyn budd-daliadau os gallant nodi a hysbysu unigolion cymwys; pan fo cymhlethdod neu hygyrchedd prosesau ymgeisio yn rhwystr, gallai symleiddio neu hyd yn oed awtomeiddio rhannau o'r broses hawlio fod yn fwy effeithiol, a gallai rhoi gwybod i bobl am eu cymhwystra yn unig gael effaith gyfyngedig; a, phan fo stigma yn cyfyngu ar dderbyn, mae'r ffordd mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu a'r ffordd mae hawlwyr yn cae eu trin yn debygol o fod yn hollbwysig.

Yn ail, canolbwyntiodd yr adolygiad ar y defnydd ac effaith teclynnau dadansoddol data yn awdurdodau lleol y DU. Roedd yn ystyried cyfleoedd, heriau, risgiau, rhwystrau ymarferol, a bylchau mewn tystiolaeth mewn mentrau eraill sy'n seiliedig ar ddata i hysbysu dealltwriaeth o gynllun peilot yr LIFT. Dechreuodd yr adolygiad o lenyddiaeth gydag ymarfer cwmpasu i nodi deunydd perthnasol a mireinio termau chwilio. Roedd y meini prawf cynnwys yn sicrhau perthnasedd i weithredu, effaith a chyd-destun daearyddol, tra bod y chwiliadau'n cwmpasu cronfeydd data academaidd (JSTOR, ScienceDirect, SpringerLink, SAGE, SSRN) a llenyddiaeth lwyd gan lywodraethau, melinau trafod, sefydliadau ymchwil, cyrff archwilio a

sefydliadau'r trydydd sector. Cyfunodd y strategaethau chwilio weithredwyr Boole a geiriau allweddol wedi'u targedu, a chofnodwyd pob chwiliad er mwyn sicrhau tryloywder a'r gallu i'w hailadrodd. Fe wnaethom nodi a darllen 21 o bapurau yn fanwl, a chyfrannodd y rhain at ein dealltwriaeth o gyd-destun y defnydd o offer dadansoddol mewn awdurdodau lleol yn y DU a'r prif rwystrau i'w rhoi ar waith.

Yn drydydd, fe wnaethom gynnal adolygiad data yn cynnwys dwy ran. Yn gyntaf, fe wnaethom nodi data oedd ar gael yn gyhoeddus ar dderbynwyr budd-daliadau dros amser ac ar lefel yr awdurdod lleol, ar draws mathau gwahanol o fudd-daliadau. Yna dadansoddwyd y data hwn dros Gam 2 i lywio'r naratif cyfraniad. Yn ail, fe wnaethom adolygu data monitro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, oedd yn cynnwys adroddiadau chwarterol a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol drwy gydol y cynllun peilot. Defnyddiwyd y data hyn i gyd-destunoli'r cynllun peilot, deall amgylchiadau pob awdurdod lleol, a theilwra trafodaethau gydag awdurdodau lleol drwy ffurfio cwestiynau penodol. Yn ogystal â hyn, ategodd y data monitro ganfyddiadau'r ymchwil gynradd a helpu i angori cymariaethau ar draws awdurdodau lleol, gan gryfhau'r dadansoddiad cyffredinol o brosesau ac effeithiau'r cynllun peilot.

### 2.3.2. Cyfweliadau cwmpasu

Fe wnaethom gynnal 4 cyfweliad cwmpasu gyda'r nod o ddatblygu dealltwriaeth glir o gyd-destun polisi, nodau ac amcanion y cynllun peilot, rhanddeiliaid allweddol, ac argaeledd data perthnasol. Roedd y cyfweliadau'n cynnwys siarad gyda chyd-weithwyr o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru, a Policy in Practice. Fe wnaethom hefyd fynychu rhaglen deufisol a chyfarfod arfer gorau, lle'r oedd awdurdodau lleol yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Policy in Practice i drafod rhwystrau i weithredu, enghreifftiau o arfer gorau, a chanlyniadau cynnar. Gyda'i gilydd, fe wnaeth y cyfweliadau a'r cyfarfodydd hyn wella ein dealltwriaeth o'r cynllun peilot a llywio datblygiad y deunyddiau gwaith maes.

### 2.3.3. Damcaniaeth Newid

Gan ddefnyddio cyfweliadau cwmpasu ac adolygiadau o'r llenyddiaeth, datblygwyd ToC gynhwysfawr i fapio gweithgareddau'r cynllun peilot a'r llwybrau mae'n anelu eu defnyddio i gyflawni ei amcanion. Darparodd y ToC sail ar gyfer y dadansoddiad cyfraniad, a oedd yn cyfosod ffynonellau tystiolaeth cymysg i archwilio'r llwybrau tuag at gyflawni effaith a ddangosir yn y ToC, gan ddarparu asesiad strwythuredig o i ba raddau mae'r effeithiau hyn yn cael eu cyflawni.

Ystyriwyd amrywiadau yn y ffordd roedd awdurdodau lleol yn rhoi LIFT ar waith yn ofalus - megis gwahaniaethau mewn grwpiau targed, dulliau neu rwystrau a ffactorau galluogi - gan fod y gwahaniaethau hyn yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i'r hyn sy'n gweithio, pryd, a pham. Er mwyn ystyried y gwahanol fannau cychwyn a'r lefelau llwyddiant a gyflawnwyd gan awdurdodau lleol, ac i arwain y canfyddiadau sydd wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn, fe wnaethom ddatblygu un ToC lefel uchel ar gyfer pob awdurdod lleol, ynghyd â theipoleg syml sy'n dangos lle mae eu teithiau gyda'r cynllun peilot yn wahanol.

### 2.3.4. Cyfweliadau gydag awdurdodau lleol

Fe wnaethom gynnal cyfanswm o 9 cyfweliad gydag awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan gyda LIFT (er bod un nad oedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru). Nod y rhain oedd archwilio dyluniad, gweithrediad a darpariaeth y cynllun peilot ar lefel leol, gan nodi llwyddiannau, heriau, a'r ffactorau a oedd yn galluogi neu'n rhwystro gweithrediad effeithiol. Rhoddwyd sylw arbennig i drefniadau rhannu data, gan gynnwys sut y gellid eu symleiddio tra'n cynnal eu cadernid, a'r heriau o gyflawni'r amcanion hyn heb offeryn trydydd parti.

Archwiliodd cyfweliadau ag awdurdodau lleol nad oeddent yn cymryd rhan yn y cynllun peilot (n=2) ymdrechion i gyflawni amcanion tebyg heb ddefnyddio'r LIFT, gan roi mewnwelediadau i werth ychwanegol y cynllun peilot a manteision a chyfyngiadau cymharol dulliau amgen. Roedd hyn yn cynnwys awdurdod lleol nad oedd yn defnyddio'r LIFT, ac un arall a oedd yn defnyddio'r LIFT heb dderbyn unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, mae'n werth nodi, gan fod pob awdurdod lleol wedi cael cyfle i wneud cais i gymryd rhan yn y cynllun peilot, y gallai fod gwahaniaethau systematig rhwng y rhai a gymerodd ran a'r rhai na chymerodd ran.

Cynhaliwyd cyfweliadau drwy Microsoft Teams. Gyda chaniatâd y cyfranogwyr, recordiwyd y cyfweliadau a chawsant eu trawsgrifio i sicrhau cywirdeb; fel arall, cymerwyd nodiadau manwl gan aelod ychwanegol o'r tîm. Derbyniodd y rhai a gafodd eu cyfweld wybodaeth ymlaen llaw am drin data a gweithdrefnau cydsynio, a sicrhawyd fod hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Dadansoddwyd data o'r cyfweliadau yn thematig, gan ddilyn fframwaith Braun and Clarke (2006). Fe wnaeth y dull hwn alluogi nodi themâu cyffredin, amrywiadau ym marn rhanddeiliaid, a meysydd cydgyfeirio neu wahaniaethu ar draws sectorau. Fe wnaeth canfyddiadau'r cyfweliadau ddarparu dealltwriaeth gyd-destunol werthfawr o'r cynllun peilot, profiad awdurdodau lleol o ddefnyddio'r LIFT, a'r effeithiau ar dderbyn budd-daliadau.

### 2.3.5. Grŵp ffocws gyda sefydliadau cymorth a chyngor

Fe wnaethom gynnal grŵp ffocws gyda sefydliadau cymorth a chyngor, gan eu bod yn sefydliadau partner allweddol sy'n ymwneud â chefnogi a chynghori trigolion ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol. Roedd y grŵp ffocws yn cynnwys 5 cyfranogwr, yn cynrychioli 4 sefydliad gwahanol. Y sefydliadau oedd:

- Cyngor ar Bopeth
- Mencap
- Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru
- Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol

Cynhaliwyd y grŵp ffocws o bell drwy Microsoft Teams. Fe wnaeth y fformat o bell hwn leihau'r baich ar gyfranogwyr a chaniatáu mwy o hyblygrwydd wrth drefnu.

Pwrpas y drafodaeth oedd archwilio rhwystrau i dderbyn budd-daliadau yng Nghymru a'u barn ar ymatebion hawlwyr budd-daliadau i'r ymgysylltu a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol drwy lythyrau a dulliau tebyg. Ceisiwyd hefyd ddysgu o'u profiadau o weithio gydag awdurdodau lleol i wella'r nifer sy'n derbyn, a chael barn ar p'un a all dulliau seiliedig ar ddata gyfrannu at gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau perthnasol. Yn olaf, roedd trafodaeth y grŵp ffocws hefyd yn cynnwys argymhellion posibl ar gyfer polisi, ymarfer a dylunio yn y dyfodol er mwyn gwella ymwybyddiaeth a manteisio ar fudd-daliadau.

## 2.4. Cam 2 - Dull methodolegol

Yng Ngham 2, fe wnaethom asesu cyfraniad tebygol y cynllun peilot at wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau a chanlyniadau cysylltiedig posibl, gan gynnwys llai o stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau, mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, a lles ariannol gwell.

### 2.4.1. Dadansoddi data monitro

Darparwyd y data monitro gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys dyddiadau, camau gweithredu a gymerwyd gan awdurdodau lleol, a'u cynnydd drwy'r cynllun peilot. Dadansoddwyd y data hwn yn fanwl i arwain dyluniad y cyfweliadau (e.e. i ddeall amgylchiadau penodol yr awdurdodau lleol i'w cyfweld) ac i ategu'r canfyddiadau o'r cyfweliadau.

### 2.4.2. Cyfweliadau dilynol gydag awdurdodau lleol

Fe wnaethom gynnal 6 chyfweliad ar y cam hwn, cyfweliadau dilynol yn bennaf gyda phobl neu sefydliadau y gwnaethom eu cyfweld yn ystod Cam 1. Nod y cyfweliadau hyn oedd casglu data manwl ar yr allbynnau ac effeithiau tymor byr ac effeithiau hirdymor y cynllun peilot. Fe wnaethom gasglu gwybodaeth am nifer yr ymgyrchoedd cyfathrebu a gynhaliwyd, y budd-daliadau a dargedwyd, nifer yr aelwydydd y cysylltwyd â nhw, y canlyniadau o ran hawliadau a/neu ddyfarniadau, a'r enillion ariannol cysylltiedig, ymhlith metrigau eraill. Fe wnaethom hefyd gasglu gwybodaeth hefyd ar ymatebion aelwydydd i'r ymgysylltiad, sy'n rhoi mewnwelediadau i effeithiolrwydd yr allgymorth, ac ar wersi a ddysgwyd ynghylch defnyddio data i gefnogi derbyn bydd-daliadau. Defnyddiwyd y mewnwelediadau hyn i asesu cyfraniad tebygol y cynllun peilot i dderbyn budd-daliadau yng Nghymru.

Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn o bell ar Microsoft Teams. Cafodd y canllawiau pwnc eu teilwra i'r sawl oedd yn cael ei gyfweld, gan gynnwys gwybodaeth o'r data monitro a'r cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod Cam 1, ac yn seiliedig ar fylchau mewn gwybodaeth, e.e., ceisio gwybodaeth am arferion neu effeithiau penodol nad oeddem wedi'u casglu yn y cam blaenorol. Dadansoddwyd mewnwelediadau a gafwyd drwy'r cyfweliadau yn thematig.

### 2.4.3. Dadansoddi data eilaidd

Fel rhan o'r adolygiad, fe wnaethom archwilio data gweinyddol ar hawliadau a dyfarniadau PC yn ôl awdurdod lleol. Fe wnaethom ddewis gweithio gyda'r data hwn o ganlyniad i'r adolygiad o ddata o Gam 1. PC yw'r budd-dal y penderfynodd y mwyafrif o awdurdodau

lleol yn y cynllun peilot ganolbwyntio arno yn gyntaf, ac mae data ar geisiadau a dyfarniadau ar gael yn wythnosol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru (gan gwmpasu hawliadau a dyfarniadau hyd at ganol mis Tachwedd 2025). Felly, roedd archwilio data tueddiadau ar gyfer PC yn ategiad naturiol i'n casgliad data cynradd. Archwiliodd y dadansoddiad dueddiadau dros amser er mwyn asesu p'un a oedd gwahaniaethau mewn tueddiadau rhwng awdurdodau lleol a gymerodd ran a'r rhai na chymerodd ran.

### 2.4.4. Dadansoddiad o gyfraniad

Mae'n heriol ynysu effaith cynllun peilot LIFT ar ganlyniadau megis derbyn budd-daliadau, ymwybyddiaeth o hawliau, a lles ariannol, gan ei fod yn gweithredu ochr yn ochr â mentrau eraill yng Nghymru, gan gynnwys prosiect Symleiddio Budd-daliadau Cymru. I fynd i'r afael â hyn, defnyddiodd yr adolygiad ddadansoddiad cyfraniad, sef dull strwythuredig ac ailadroddol sy'n asesu a ellir cysylltu newidiadau a welwyd yn rhesymol â'r cynllun peilot heb ddibynnu ar grwpiau rheoli arbrofol.

Gan ddefnyddio'r ToC fel fframwaith, fe wnaethom ddefnyddio'r holl dystiolaeth ansoddol a meintiol a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad i adeiladu ac archwilio asesiad cyfraniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn benodol, fe wnaethom asesu cryfder y dystiolaeth bod cynllun peilot LIFT wedi cael yr effeithiau a fwriadwyd drwy asesu'n systematig p'un a yw elfennau allweddol y ToC wedi gweithio fel y bwriadwyd. Adolygwyd tystiolaeth gychwynnol ar effeithiau a chanlyniadau a gasglwyd yn ystod ein gwaith yng Ngham 1, ac yna teilwra ffocws ein gwaith maes yng Ngham 2 er mwyn llenwi bylchau allweddol yn y dystiolaeth neu ddatrys signalau gwrthgyferbyniol. Mae'r diagram lefel uchel isod yn crynhoi prif gamau ein dadansoddiad cyfraniad.

**Ffigur 1. Dadansoddiad o gyfraniad**




Ffynhonnell: Alma Economics

### 2.4.5. Astudiaethau achos


Arweiniodd ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid ar draws y ddau gam ddatblygiad 3 astudiaeth achos fanwl. Nod yr astudiaethau achos yw amlygu'r profiadau gwahanol gyda gwella ymwybyddiaeth a derbyn budd-daliadau, ffyrdd amrywiol o roi'r cynllun peilot ar waith, rhwystrau sydd wedi'u goresgyn (neu nad ydynt wedi'u goresgyn), ac enghreifftiau o'r effeithiau y gellir eu cyflawni drwy weithredu'n effeithiol. Mae'n bwysig i awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan ddysgu gan y naill a'r llall ac i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru elwa o'r mewnwelediadau a gynhyrchwyd am sut i fynd i'r afael â'r nifer sy'n derbyn budd-

daliadau gan ddefnyddio dulliau seiliedig ar ddata, o ystyried eu bod yn rhannu nodau cyffredin yn hyn o beth.

## 3. Damcaniaeth Newid

Mae'r diagram isod yn cyflwyno'r ToC. Mae'n cynrychioli ein dealltwriaeth o'r perthnasau rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau, ac effeithiau'r cynllun peilot. Adolygwyd a mireiniwyd y ToC wrth i dystiolaeth newydd ddod i lawr drwy gydol y prosiect. Mae'r marciau cwestiwn sydd wedi'u cynnwys ar draws y diagram yn dynodi cysylltiadau nad ydynt o bosibl yn bresennol yn gyson ym mhob awdurdod lleol; roedd rhan o'r dadansoddiad yn cynnwys profi i ba raddau mae'r cysylltiadau hyn dal yn ymarferol.

**Ffigur 2: ToC**




Ffynhonnell: Alma Economics yn seiliedig ar gasglu data cynradd.

Isod, rydym yn disgrifio'r camau a ddangosir yn y ToC yn fanylach. Noder nad yw hyn ynddo'i hun yn ddisgrifiad o'n canfyddiadau ynghylch p'un a yw pob un o'r elfennau hyn o'r ToC yn gweithio fel y nodir - dim ond esboniad o'r ToC ei hun yw hwn. Mae ein canfyddiadau wedi'u cyflwyno mewn adrannau diweddarach (Pennod 4).

**Mewnbynnau.** Mae'r ToC wedi'i strwythuro o amgylch 3 phrif actor; Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot, ac awdurdodau lleol nad ydynt yn cymryd rhan. Fel y dangosir yn y golofn gyntaf (mewnbynnau), mae gan awdurdodau lleol adnoddau ar waith ar gyfer gweithgareddau sy'n ceisio cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, gan gynnwys gweithlu (maint, gwybodaeth, sgiliau), amser, a chyllid. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn amrywio o ran lefel yr adnoddau hyn sydd ar gael, a allai arwain at deithiau gwahanol ar draws awdurdodau lleol, fel y gwelir yn yr is-adran nesaf. Darparodd Llywodraeth Cymru adnoddau ychwanegol (cyllid) i'r awdurdodau lleol a gymerodd ran, gan alluogi eu cyfranogiad yng nghynllun peilot yr LIFT. O'r pwynt hwn

ymlaen, mae awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn dilyn llwybrau gwahanol.

**Gweithgareddau.** Mae awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn dechrau gyda chyfnod cynefino. Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r caniatâd mewnol ac allanol angenrheidiol ar gyfer rhannu data a chymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a ddarperir gan Policy in Practice. Mae ymgysylltu â'r offeryn hefyd yn gofyn am gapasiti staff a rhywfaint o arbenigedd o ran rheoli timau, gwybodaeth TG, a gofynion cyfreithiol, ymhlith meysydd eraill. Mewn llawer o achosion, mae'n rhaid datblygu'r capasiti hwn yn benodol ar gyfer y cynllun peilot, gan gyfrannu at feithrin capasiti ehangach o fewn y sefydliad. Unwaith y bydd y broses gynefino a dyrannu adnoddau wedi'u cwblhau, gall awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r LIFT. Er mai prif nod y cynllun peilot yw helpu awdurdodau lleol i nodi aelwydydd sy'n ymddangos yn gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol ond nad ydynt yn eu hawlio ar hyn o bryd, mewn egwyddor, gellid defnyddio data ychwanegol ar aelwydydd incwm isel at ddibenion eraill hefyd (enghreifftiau gwirioneddol a amlygwyd yn ddiweddarach yn ein gwaith maes oedd hyrwyddo gweithgareddau rhad ac am ddim a thargedu gweithdai cyflogadwyedd). Mae awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd misol gyda Llywodraeth Cymru a Policy in Practice, lle gallant rannu profiadau, dysgu oddi wrth ei gilydd, a chodi heriau. Mewn cyferbyniad, gall awdurdodau lleol nad ydynt yn cymryd rhan ddefnyddio LIFT neu beidio, ac os nad ydynt yn ei ddefnyddio, gallant roi eu strategaethau eu hunain ar waith i nodi pobl gymwys nad ydynt yn hawlio, megis drwy ddadansoddi achosion â llaw, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael a'r blaenoriaethau.

**Allbynnau.** Yn ôl y ToC, y prif allbwn a fwriedir yw nodi aelwydydd cymwys nad ydynt yn hawlio a rhoi ymgyrchoedd cyfathrebu ar waith. Fodd bynnag, yn ymarferol efallai nad yw pob awdurdod lleol wedi mynd ar drywydd yr allbynnau hyn yn llwyr neu'n parhau i wneud hynny. Yn dibynnu ar lwyddiant sefydlu'r offeryn (ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan) neu ar nodi â llaw (ar gyfer awdurdodau lleol nad ydynt yn cymryd rhan), mae awdurdodau lleol yn bwrw ymlaen naill ai ag ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu'n fwy neu rai ehangach. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn amrywio o ran ffurf a dwyster, a gallant gynnwys llythyrau wedi'u targedu, allgymorth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, galwadau ffôn, neu ymweliadau cartref. Fel arfer, mae ymgyrchoedd yn arwain at sefydliadau cyngor a chymorth, neu'n cael eu cefnogi gan y rhain.

**Effeithiau.** Gall gweithgareddau allgymorth arwain at gynnydd yn y nifer sy'n derbyn budd-daliadau drwy wella mynediad aelwydydd at wybodaeth, lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau drwy iaith sy'n atgyfnerthu dilysrwydd hawlio cymorth, a lleihau unrhyw feichiau gweinyddol sy'n gysylltiedig â derbyn drwy gyswllt uniongyrchol. Pan ddefnyddir ymgyrchoedd neu brosesau nodi yn ehangach, efallai y byddant hefyd yn hwyluso mynediad gwell at wasanaethau eraill. Mewn llawer o achosion, arweiniodd ymgyrchoedd cyfathrebu at gyswllt rhwng hawlwyr posibl a sefydliadau cymorth a chyngor, a'u cefnogodd gyda'r broses ymgeisio. Efallai y bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan hefyd yn elwa o gapasiti mewnol cryfach a rhannu gwybodaeth yn well, yn enwedig drwy'r rhyngweithio rheolaidd rhwng timau Refeniw a Budd-daliadau, a allai arwain at ganlyniadau cadarnhaol eraill.

Yn y tymor hwy, disgwylir i'r allbynnau hyn gefnogi amcanion ehangach sy'n ymwneud â manteisio i'r eithaf ar incwm, lleihau tlodi, a gwella lles. Drwy helpu aelwydydd i gyrchu'r cymorth ariannol mae ganddynt hawl iddo, mae gan y cynllun peilot y potensial i gryfhau gwytnwch ariannol, lleihau straen ariannol, a chyfrannu at amodau byw mwy sefydlog. Gyda'i gilydd, efallai y bydd yr effeithiau hyn yn helpu i leddfu'r pwysau ar aelwydydd a chefnogi gwelliannau mewn lles cyffredinol dros amser.

Mae'n bwysig nodi na fydd pob cyswllt yn y llwybr hwn yn berthnasol ym mhob achos, ac efallai na fydd rhai awdurdodau lleol yn symud drwy bob cam. Serch hynny, roedd y model hwn yn cynrychioli ein dealltwriaeth weithredol o sut y bwriadwyd i'r cynllun peilot weithio, oedd wedi'i fireinio wrth i ddata a mewnwelediadau pellach ddod i law.

# 4. Canfyddiadau

## 4.1. Cyd-destun: Lefelau derbyn budd-daliadau, a rhwystrau rhag derbyn budd-daliadau

Mae cyfraddau derbyn budd-daliadau yn amrywio ar draws gwahanol fathau o fudd-daliadau a grwpiau demograffig, gan adlewyrchu amrywiadau mewn cymhwystra, prosesau ymgeisio, amgylchiadau aelwydydd, a'r rhwystrau penodol a all atal aelwydydd rhag hawlio'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo.

Mae cymhlethdodau wrth fesur y nifer sy'n derbyn UC ers dechrau ei gyflwyno'n raddol yng nghanol y 2010au yn golygu nad oes gennym amcangyfrifon swyddogol cyfoes o gyfraddau derbyn ar gyfer y prif fudd-dal presennol i bobl o oedran gweithio. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddata o 2014–15 roedd tua £1 o bob £7 o hawliadau sy'n dibynnu ar brawf modd neu hawliadau cyfrannol i bobl o oedran gweithio heb eu hawlio ledled y DU. Gwyddom fod cyfraddau diffyg derbyn rhai o'r "hen fudd-daliadau" penodol yn arbennig o uchel. Ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith a Chredyd Treth Gwaith (WTC) ymhlith teuluoedd heb blant (nad ydynt chwaith yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Plant, a hawliwyd ynghyd â WTC), amcangyfrifwyd bod cyfraddau diffyg derbyn yn tua 50% o'r rhai oedd yn gymwys (Hoynes, Joyce, and Waters, 2024).

Y prif fudd-dal prawf modd ar gyfer pobl hŷn yw Credyd Pensiwn. Mae cyfraddau manteisio hwn wedi bod yn gymharol isel erioed, gyda lefel isel o ddealltwriaeth ymhlith y boblogaeth darged o ran meini prawf cymhwystra penodol (DWP, 2026). Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben (FYE) yn 2024, amcangyfrifwyd bod 62% o'r rhai oedd â hawl i Gredyd Pensiwn wedi hawlio'r budd-dal (DWP, 2025). Mae hyn yn awgrymu nad oedd hyd at 910,000 o deuluoedd a oedd â hawl i Gredyd Pensiwn wedi ei hawlio yn 2024, gan gynrychioli hyd at £2.5 biliwn o fudd-daliadau heb eu hawlio. Mae Credyd Pensiwn wedi bod yn destun pryder o ran derbyn ers peth amser ac mae wedi cael sylw mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, mae tystiolaeth ymddygiadol o astudiaeth y Behavioural Insights Team (2022) yng Ngogledd Iwerddon yn canfod bod lefel isel o dderbyn Credyd Pensiwn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan ddryswch ynghylch cymhwystra, ac yn argymell defnyddio iaith syml a negeseuon cyson sy'n pwysleisio pa mor hawdd yw gwneud cais a gwerth cronnol budd-daliadau ychwanegol.

Yn gyffredinol, mae diffyg derbyn budd-daliadau yn cael ei ddylanwadu gan ryngweithio cymhleth rhwng rhwystrau gwybodaethol, gweinyddol, a chymdeithasol/seicolegol. Mae **diffyg gwybodaeth neu ymwybyddiaeth** ymhlith y rhwystrau pwysicaf. Mae Hoynes, Joyce, and Waters (2024) yn nodi mai rheswm allweddol pam nad yw pobl yn hawlio budd-daliadau yw diffyg gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael neu sut i wneud cais. Nodwyd yr her hon hefyd gan sefydliadau cymorth yn ein gwaith maes. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan y ffaith bod cymorth fel arfer yn cael ei gynnig i'r rhai sy'n mynd ati'n weithredol i'w geisio neu sydd eisoes wedi cael rhyw fath o gyswllt â gwasanaethau cyhoeddus. Yn aml, nid yw'r trigolion sydd fwyaf tebygol o fod angen cymorth yn dod ymlaen, ac mewn llawer o achosion nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw wybodaeth amdanynt.

Mae **cymhlethdod gweinyddol** hefyd yn aml yn rhwystro derbyn, fel y canfuwyd gan Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Llywodraeth Cymru. Gall ffurflenni cais fod yn anhygyrch oherwydd cyfyngiadau fformat, rhwystrau iaith, allgáu digidol, neu ddyluniad rhy gymhleth, gan atal llawer o ddefnyddwyr - yn enwedig pobl anabl, y rhai sydd â sgiliau digidol cyfyngedig, neu siaradwyr Saesneg anfrodorol - rhag gwneud cais yn annibynnol. Yn aml mae hawlwyr angen cymorth i lywio'r meini prawf cymhwystra a'r broses ymgeisio, ond mae diffyg staff, gweithdrefnau di-drefn, rhannu data gwael, a phrosesau anghyson ar draws awdurdodau lleol yn aml yn creu profiad heriol a rhwystredig. Yn hyn o beth, mae Hoynes, Joyce, and Waters (2024) hefyd yn dangos yn eu cyfosodiad o'r llenyddiaeth y gall prosesau hawlio beichus atal unigolion cymwys ymhellach rhag gwneud cais neu gyrchu eu budd-daliadau llawn.

Pwysleisiodd sefydliadau cymorth hefyd fod cymhlethdod y system fudd-daliadau yn rhwystr mawr. Mae'r cymhlethdod hwn yn bodoli yn y broses ymgeisio ei hun ac yn y ffordd mae'r system yn cael ei dirnad gan hawlwyr posibl. O safbwynt dylunio gwasanaethau, gall y broses gynnwys sawl cam, ffurflenni manwl, a gofynion tystiolaeth helaeth, megis darparu prawf incwm neu wybodaeth feddygol. Gall y gofynion hyn fod yn llethol ac arwain unigolion i beidio â dechrau cais neu i beidio â'i gwblhau. Yn ogystal, gall y posibilrwydd y bydd hawliadau'n cael eu gwrthod a'r rhagolygon o orfod llywio prosesau apelio atal pobl rhag ymgysylltu ymhellach.

Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a sefydliadau cymorth fod cymhlethdod canfyddedig yn gallu bod yr un mor arwyddocaol â chymhlethdod gweithdrefnol gwirioneddol. Gall rhai unigolion benderfynu peidio â mynd ar drywydd hawliad am eu bod yn tybio y bydd y broses yn rhy anodd neu'n cymryd gormod o amser, hyd yn oed os nad yw hynny'n wir. Gall pwysau amser hefyd weithredu fel rhwystr, yn enwedig i unigolion sy'n cydbwyso gwaith, gofal plant neu gyfrifoldebau eraill.

Ar y llaw arall, amlygodd sefydliadau cymorth sawl **rhwystr strwythurol ac unigol** a all gyfyngu ar dderbyn budd-daliadau ledled Cymru. Nodwyd ffactorau demograffig a daearyddol fel rhai arbennig o arwyddocaol. Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio a chyfran uchel o gymunedau gwledig, a all wneud mynediad at gymorth yn fwy anodd. Gall trigolion hŷn fod â lefelau is o hyder digidol, efallai na fydd ganddynt rywun ar gael i'w helpu gyda cheisiadau, neu gallant wynebu heriau symudedd a thrafnidiaeth sy'n cyfyngu ar fynediad at wasanaethau wyneb yn wyneb. Gall trigolion sy'n byw mewn ardaloedd

daearyddol anghysbell hefyd wynebu anawsterau ychwanegol wrth gyrraedd darparwyr cyngor neu wasanaethau cymorth.

Adroddwyd gan sefydliadau cymorth fod diffyg mynediad digidol yn rhwystr sylweddol i dderbyn budd-daliadau. Mewn rhannau o Gymru, mae trigolion yn byw mewn ardaloedd â chysylltedd cyfyngedig, neu “fannau gwan”, sy’n cyfyngu ar eu gallu i gyrchu gwasanaethau ar-lein. Hyd yn oed pan fo cysylltedd ar gael, gall cost mynediad i’r rhyngrwyd neu dechnoleg fod yn rhwystr i rai unigolion, gan gyfyngu ar eu gallu i gyflwyno ceisiadau, darparu tystiolaeth, neu ymgysylltu â gwasanaethau cymorth.

Hefyd, mae **stigma** yn aml yn ffactor sy’n dylanwadu ar dderbyn hawliadau. Mae Davies, Evans, and Cross (2025) yn canfod y gall stigma effeithio ar hawlio budd-daliadau drwy achosi i bobl ohirio ceisiadau neu hawlio fel dewis olaf yn unig, er mwyn osgoi stereoteipiau negyddol a phellhau eu hunain oddi wrth y label “hawlydd budd-daliadau”, gan gynyddu’r risg o galedi ariannol. Mae Hoynes, Joyce, and Waters (2024) yn nodi bod tystiolaeth feintiol gyfyngedig ynghylch p’un a yw stigma yn atal derbyn neu’n dangos bod mesurau i fynd i’r afael â stigma yn gallu bod yn bwerus wrth gynyddu’r nifer sy’n derbyn; ond bod digon o dystiolaeth ansoddol bod stigma yn bodoli, ac y byddai hyn yn broblem p’un a yw’n lleihau derbyn ai peidio, gan fod stigma yn annymunol ynddo’i hun.

Nodwyd ofn stigma fel rhwystr pwysig gan sefydliadau cymorth a chyngor. Maen nhw’n adrodd bod rhai unigolion yn poeni am gael eu barnu am geisio cymorth ariannol, a all eu hatal rhag ymgysylltu â gwasanaethau. Gall yr heriau hyn fod yn arbennig o amlwg i unigolion ag anableddau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl neu awtistiaeth, a allai brofi bod prosesau ymgeisio safonol a deunyddiau gwybodaeth yn llai hygyrch ac yn anoddach eu llywio.

Er y gall cynyddu ymwybyddiaeth a gwella cyfathrebu gefnogi derbyn, mae’r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Davies, Evans, and Cross (2025) ill dau yn pwysleisio nad yw’r mesurau hyn ar eu pen eu hunain yn ddigonol heb fynd i’r afael â heriau ehangach sy’n ymwneud â dylunio’r system a hygyrchedd. Maen nhw’n tynnu sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull sy’n canolbwyntio ar bobl i’r system er mwyn sicrhau ei bod yn fwy hyblyg, hygyrch a chefnogol i ddefnyddwyr.

## 4.2. Teipoleg awdurdodau lleol sy’n cymryd rhan

Dechreuodd awdurdodau lleol y cynllun peilot gyda lefelau gwahanol o gapasiti, arbenigedd, ac i ryw raddau nodau oedd eisoes yn bodoli, ac felly maen nhw hefyd wedi cyrraedd gwahanol gyfnodau o weithredu. Er mwyn arwain gweddill yr adrannau, rydym wedi datblygu teipoleg syml yn seiliedig ar yr awdurdodau lleol rydym wedi ymgysylltu â nhw drwy gydol y prosiect hwn a gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau data eraill.

**Ffigur 3: Gwahaniaethau mewn teithiau ar draws awdurdodau lleol**

| | Cam | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Math o Awdurdodau Lleol** | **Cynefino** | **Defnyddio LIFT** | **Ymgyrchoedd** | **Profiad cyffredinol** |
| **Math A** | Cymhleth ac yn destun oedi | Wedi'u cyfyngu gan gyfyngiadau adnoddau | Yn destun oedi difrifol | Costau uchel heb fuddion gweladwy |
| **Math B** | Cymhleth ac yn destun oedi | Mae LIFT yn offeryn defnyddiol | Dysgu a gwella | Mae LIFT yn ddefnyddiol ond mae angen rhagor o adnoddau er mwyn parhau i'w ddefnyddio |
| **Math C** | Cymhleth ac yn destun oedi | Mae LIFT yn hanfodol ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Rhedeg ymgyrchoedd | Mae LIFT yn allweddol i symud eu nodau ymlaen |

Ffynhonnell: Alma Economics yn seiliedig ar gasglu data cynradd

Mae **Math A** yn cynnwys awdurdodau lleol sydd wedi bod angen cyfnod llawer hirach i gyrraedd defnydd effeithiol o blatfform LIFT o gymharu â Mathau B a C. Er eu bod wedi gallu defnyddio'r offeryn yn y pen draw, mae eu llwybr tuag at ddefnydd swyddogaethol a strategol o'r platfform wedi bod yn arafach ac wedi gofyn am fwy o adnoddau. Mae'r math hwn yn cynnwys nifer fach o awdurdodau lleol (N=2).

Profodd y math hwn o awdurdod lleol brosesau cynefino cymhleth neu wedi'u hoedi, wnaeth gyfyngu eu defnydd cynnar o'r LIFT. Wrth iddynt symud i gyfnod o ddefnydd gweithredol o'r LIFT, daethant ar draws anawsterau oedd yn gysylltiedig â ffactorau trefniadol mewnol, lle roedd newidiadau mewn arweinyddiaeth, trafodaethau mewnol parhaus, neu brinder staff yn rhwystro'r defnydd gorau posibl o'r platfform ac yn cyfrannu at oedi wrth ddefnyddio data a chynnal ymgyrchoedd. Mewn rhai achosion, arafodd problemau gydag ansawdd data o fewn y platfform eu gallu i lansio ymgyrchoedd yn hyderus ymhellach. Golygai'r ffactorau cyfunol hyn fod ymgysylltu â thrigolion a rhoi ymgyrchoedd ar waith wedi cael eu gohirio o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Er bod yr awdurdodau lleol hyn wedi dechrau gweithredu ymgyrchoedd drwy LIFT tuag at ddiwedd y cynllun peilot, maen nhw'n dal yng nghamau cynnar trosi defnydd o'r platfform yn ganlyniadau mesuradwy.

Mae **Math B** yn cynnwys awdurdodau lleol sydd wedi profi heriau i ddechrau, ond sydd wedi datgloi potensial i ddefnyddio'r offeryn yn effeithio gyda'r amser a'r adnoddau angenrheidiol (N=3). Roedd eu proses ymuno hefyd yn gymhleth ac yn destun oedi, ond yn y pen draw fe wnaethant gyrraedd cam lle gallent ddechrau ymgysylltu â'r offeryn. Mae eu profiad o ddefnyddio LIFT wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac maen nhw'n ei ddisgrifio fel offeryn defnyddiol i nodi hawlwyr posibl. Serch hynny, roeddent o'r farn bod cynyddu'r nifer sy'n derbyn yn gofyn am weithgareddau ategol ychwanegol, buddsoddiad pellach, a gwaith parhaus gan staff, na all LIFT fynd i'r afael â hwy ar ei ben ei hun. Yn gyffredinol, mae eu profiad o'r cynllun peilot wedi bod yn adeiladol, er eu bod yn nodi, er bod LIFT yn offeryn defnyddiol, nad yw'n ddatrysiad ar ei ben ei hun, a byddai ei ddefnydd parhaus yn dibynnu ar p'un a yw'r buddsoddiadau angenrheidiol yn cael eu hystyried yn gymesur â'r manteision.

Mae **Math C** yn cynnwys yr awdurdodau lleol mae'r cynllun peilot wedi gweithio'n arbennig o dda iddynt. Er bod eu proses gynefino yn gymhleth yn yr un modd ac wedi cymryd llawer o amser, fe wnaethant lwyddo i'w llywio ac aethant ymlaen i ddefnyddio'r offeryn yn rheolaidd (N=4). I'r awdurdodau lleol hyn, mae LIFT bellach yn cael ei ystyried yn offeryn hanfodol ar gyfer nodi aelwydydd sy'n gymwys i gael budd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn enwedig ar gyfer timau Refeniw a Budd-daliadau, ac mae bellach wedi'i wreiddio yn eu harferion gweithredol. Mae'r gwreiddio gweithredol hwn yn eu gosod ar wahân i fathau eraill o awdurdodau lleol ac yn sail i'w parodrwydd i barhau i ddefnyddio'r offeryn. Maen nhw'n cynnal sawl ymgyrch ac yn disgrifio eu profiad cyffredinol fel un cadarnhaol ac yn gweld LIFT yn allweddol i gyflawni eu nodau. Maen nhw'n frwdfrydig ynghylch parhau i ddefnyddio'r offeryn, mewn rhai achosion hyd yn oed yn absenoldeb cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru.

Er ein bod wedi dosbarthu pob awdurdod lleol yr ymgysylltwyd â hwy yn y tri math hyn, mae'n debygol y bydd rhai, gyda mwy o amser i ddefnyddio'r offeryn a mwy o adnoddau ar gael, yn symud tuag at ddefnydd mwy effeithiol ohono ac felly'n symud i fath gwahanol.

## 4.3. Gweithgareddau – Cynefino â'r cynllun peilot

Mae tair prif wers o'r profiad o gynefino â'r cynllun peilot, yn bennaf yn ymwneud â chymhlethdod y cytundebau rhannu data sydd eu hangen i ddechrau defnyddio'r offeryn, rôl Policy in Practice yn ystod y cam hwn, a'r gwaith adeiladu capasiti sydd ei angen i sefydlu'r LIFT.

**Roedd y cytundebau rhannu data ar ddechrau'r cynllun peilot yn gymhleth ac yn destun oedi**

Ar ddechrau'r cynllun peilot, roedd angen i bob awdurdod lleol rannu data gweinyddol perthnasol gyda Policy in Practice. Roedd rhaid dilyn dwy brif broses er mwyn cyflawni hyn. Yn gyntaf, roedd rhaid i awdurdodau lleol lywio eu protocolau diogelu data mewnol gyda thimau cyfreithiol a TG er mwyn cael cymeradwyaeth ar gyfer rhannu data. Roedd y cymeradwyaethau hyn yn gyffredinol yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, oherwydd cyfuniad o ffactorau hanesyddol a threfniadol. Gan fod awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau diogelwch data unigolion, maen nhw'n aml yn gofyn am gymeradwyaeth gan eu Swyddogion Diogelu Data cyn rhannu gwybodaeth. Roedd achosion blaenorol o dorri rheolau diogelu data wedi gwneud awdurdodau lleol yn ofalus ac yn wrth-risg.

Er enghraifft, profodd cyngor Math B oedi tra'n aros am gymeradwyaeth gan ei dîm TG. Yn y cyfamser, arafodd newidiadau yn y tîm cyfreithiol y cynnydd, gan mai profiad cyfyngedig oedd gan y swyddog newydd a benodwyd gyda chymeradwyaethau diogelu data. Unwaith y cafwyd y cymeradwyaethau hyn, roedd timau mewnol yn gefnogol, a'r unig gyfyngiad oedd amser staff i gwblhau'r tasgau angenrheidiol. Roedd anawsterau wrth sicrhau cymeradwyaeth fewnol ar gyfer rhannu data yn gyffredin ar draws pob math o awdurdod lleol, er bod hyd yr oedi'n amrywio rhwng tua 3 a 6 mis.

Ar ôl cael cymeradwyaeth fewnol, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni ailddefnyddio data i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu Cyllid a Thollau EF (CThEF) er mwyn defnyddio data hawlwyr. Nid oedd gan lawer o awdurdodau lleol arbenigedd mewnol ar

brosesau ailddefnyddio data, ac roedd angen cydlynu nifer o swyddogion a staff i adolygu a llofnodi'r ffurflenni angenrheidiol. Felly, cododd oedi sylweddol yn ystod y broses gynefino, yn bennaf oherwydd prosesau cymeradwyo mewnol sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth a diogelu data, yn hytrach na rhwystrau technegol.

Ar gyfartaledd, cymerodd bron i 5 mis i awdurdodau lleol sefydlu'r offeryn a'i baratoi ar gyfer ei ddefnyddio. Yn yr achos cyflymaf, cymerodd awdurdod lleol 3 mis i baratoi'n fewnol a chael cymeradwyaeth ar gyfer ailddefnyddio data, ond mewn achosion gyda'r anawsterau a'r oedi mwyaf, cymerodd hyd at 6 mis.

Ar ôl cael cymeradwyaethau mewnol ac allanol, nid oedd rhai awdurdodau lleol yn hollol sicr pa wybodaeth/newidynnau oedd angen iddynt eu hanfon, a oedd yn golygu bod angen eglurhad ac weithiau sawl iteriad, gan arafu'r broses. Arafodd y broses hon y defnydd o LIFT gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi'r adroddiadau cywir, dynodwyr unigryw, a ffynonellau data amgen. Mae'r enghraifft hon yn dangos y gall y gromlin ddysgu sy'n gysylltiedig â'r offeryn fod yn araf, gyda defnydd mwy effeithlon yn aml yn dod i'r amlwg dim ond ar ôl i dimau feithrin profiad a hyder gyda'r platfform.

Teimlai nifer o awdurdodau lleol y byddai mwy o gydlynu a goruchwyliaeth ganolog rhagweithiol, gyda rôl gefnogol fwy uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn fuddiol. Er i'r drwydded ddechrau ym mis Ionawr 2025, ni chafodd unrhyw awdurdod lleol fynediad at y platfform tan sawl mis yn ddiweddarach oherwydd prosesau cynefino hirfaith ac anghyson. O ganlyniad, dechreuodd awdurdodau ddefnyddio LIFT ar wahanol adegau - yn amrywio o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2025, yn ôl eu data monitro - gan olygu na chafodd yr un ohonynt fudd o gyfnod llawn o 12 mis o ddata cyson.

Waeth beth fo'r offeryn dadansoddi data penodol sy'n cael ei redeg gan awdurdodau lleol yng Nghymru, bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chytundebau llywodraethu data er mwyn galluogi rhannu data â chwmnïau dadansoddi data at ddiben cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau.

### Roedd cymorth Policy in Practice yn allweddol i gynefino llwyddiannus

Trwy gydol cyfnod cynefino â'r cynllun peilot, chwaraeodd Policy in Practice rôl gefnogol allweddol i awdurdodau lleol. Ystyriwyd parodrwydd Policy in Practice i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn barhaus ag awdurdodau lleol er mwyn datrys problemau gyda'r platfform a chyfathrebu'n rheolaidd yn hynod gadarnhaol. Cyfeiriwyd yn aml at y gefnogaeth hon fel cefnogaeth ddefnyddiol wrth lywio gofynion gweinyddol a thechnegol y broses gynefino ac wrth gynnal y cynllun peilot yn gyffredinol.

Roedd eu profiad blaenorol o weithio gydag awdurdodau lleol eraill yn eu galluogi i arwain awdurdodau lleol yn effeithiol drwy'r broses, gan gynnwys darparu gweminarau, sesiynau Cwestiwn ac Ateb, templedi, a chymorth ymarferol gyda chytundebau rhannu data. Adroddwyd adborth cadarnhaol ar ansawdd y gefnogaeth gan awdurdodau lleol ar draws gwahanol fathau, gan gynnwys Mathau A, B, a C.

**Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol adeiladu capasiti mewnol ac ailddyrannu adnoddau i'r cynllun peilot**

Roedd angen i lawer o awdurdodau lleol roi trefniadau staffio newydd ar waith i gefnogi'r cynllun peilot. Roedd hyn yn cynnwys creu swyddi newydd, recriwtio staff ychwanegol, ail-leoli staff presennol neu adnoddau o feysydd eraill, a pharatoi neu hyfforddi timau er mwyn ymgysylltu â'r cynllun peilot yn effeithiol. Roedd y camau paratoi hyn yn angenrheidiol i sicrhau y gellid rhedeg y cynllun peilot fel y bwriadwyd, ond mewn rhai achosion fe wnaethant hefyd oedi'r broses o'i gyflwyno'n llwyddiannus.

Er enghraifft, creodd rhai awdurdodau lleol swydd newydd i fod yn gyfrifol am ddefnyddio'r dangosfwrdd, diweddaru data, a chynnal dadansoddiad. Cyflwynodd hyn gostau ac oedi ychwanegol, gan y gallai recriwtio gynnwys drafftio disgrifiad swydd, hysbysebu'r rôl, cyfweld ymgeiswyr, penodi ymgeisydd llwyddiannus, ac aros iddynt gwblhau eu cyfnod rhybudd. Roedd y baich hwn yn aml yn annisgwyl, gan fod awdurdodau lleol wedi nodi nad oeddent yn ymwybodol i ddechrau o'r amser a'r adnoddau oedd eu hangen ar gyfer y cynllun peilot.

## 4.4. Gweithgareddau – Nodi unigolion cymwys nad ydynt yn hawlio

Mae'r prif gasgliadau ynghylch defnyddio'r offeryn yn ymwneud â'i allu i gyflawni ei ddiben, y mewnbynnau sydd eu hangen ar gyfer defnydd llwyddiannus, ei brif gymwysiadau, a'i gyfyngiadau. Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar p'un a oes diddordeb mewn datblygu offeryn tebyg yn fewnol o fewn awdurdodau lleol.

**Mae LIFT yn galluogi awdurdodau lleol i olrhain unigolion a thargedu ymgysylltu**

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae LIFT wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi awdurdodau lleol mewn sawl maes allweddol, yn enwedig wrth olrhain unigolion a allai fod yn gymwys, targedu ymgyrchoedd cyfathrebu yn fwy effeithiol, a lleihau'r baich gweithredol ar dimau Refeniw a Budd-daliadau. Mae hyn yn cyd-fynd ag arsylwad Edwards, Gillies, and Gorin (2021) ynghylch y defnydd cynyddol o gasglu a dadansoddi data digidol, sy'n galluogi awdurdodau lleol i gasglu gwybodaeth helaeth am nodweddion, ymddygiadau a risgiau unigolion, gan gefnogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch dyrannu adnoddau a datblygu polisïau.

Fodd bynnag, dyma'r cam lle mae awdurdodau lleol ar draws y gwahanol fathau yn amrywio fwyaf. Er enghraifft, roedd angen llawer mwy o amser ar awdurdod lleol Math A na'r lleill i gyrraedd pwynt lle gellid defnyddio'r platfform yn hyderus, gan eu bod wedi profi problemau gydag ansawdd data, oedd yn golygu nad oedd ganddynt ddigon o ymddiriedaeth yn y canlyniadau a ddarperir gan yr offeryn i seilio gweithrediadau arnynt. Yn ogystal â hynny, gwelodd awdurdodau lleol eraill fod y broses yn cael ei rhwystro gan heriau capasiti mewnol. Mewn cyferbyniad, roedd awdurdodau lleol Math C yn gallu dechrau defnyddio'r offeryn yn rheolaidd yn gyflym, gan ei integreiddio i'w gweithrediadau arferol a'u galluogi i olrhain unigolion a thargedu ymgysylltu yn effeithiol.

I'r rhai a oedd yn gallu defnyddio'r offeryn, pwysleisiodd timau yn gyson fod LIFT yn llenwi bwlch mawr mewn data lleol ac yn adlewyrchu tystiolaeth ehangach ynghylch rôl systemau

data integredig mewn gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol. Fel mae Ada Lovelace Institute(2024) yn ddadlau, gall cyfuno data ar draws gwasanaethau mewn un platfform dadansoddol gefnogi ymyrraeth gynnar, galluogi ymatebion mwy cyfannol ac ataliol, a sicrhau effeithlonrwydd sylweddol o ran amser staff. Yn yr ystyr hwn, gellir deall LIFT fel enghraifft o'r math o seilwaith data cadarn sydd yn fwyfwy hanfodol i awdurdodau lleol wrth ymateb i amgylchedd sy'n dod yn fwy cymhleth.

Cyn defnyddio'r LIFT, nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol nad oedd ganddynt ffordd glir o nodi'r aelwydydd penodol i'w targedu, a oedd yn aml yn arwain at anfon llythyrau at grŵp neu ardal llawer ehangach, neu beidio ag anfon llythyrau o gwbl. Er enghraifft, nododd rhai awdurdodau lleol eu bod yn cyfyngu eu hymdrechion i ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol oherwydd diffyg gwybodaeth fanwl am bobl nad ydynt yn hawlio. Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus yn y gorffennol, roeddent naill ai'n dibynnu ar brosesau papur a oedd yn cymryd llawer o amser i nodi unigolion cymwys nad oeddent yn hawlio, neu ar ragdybiaethau. Fodd bynnag, cyn y cynllun peilot, dim ond ceisiadau data syml y gallai staff eu trin, gan fod dadansoddiad mwy manwl yn cymryd gormod o amser ac yn gofyn am gydlynu â thimau eraill, fel y nododd un awdurdod lleol. Wrth edrych ar awdurdodau lleol nad oeddent yn cymryd rhan yn y cynllun peilot, nododd un nad oeddent wedi cynnal unrhyw ddulliau o nodi na thargedu o gwbl. Serch hynny, mae sampl fach o awdurdodau lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot wedi penderfynu prynu LIFT ar eu liwt eu hunain.

Yn gyffredinol, o'i gymharu â'r senario sylfaenol lle nad oedd LIFT yn cael ei ddefnyddio o gwbl, roedd gan awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y cynllun peilot y posibilrwydd o ddibynnu ar dystiolaeth yn hytrach nag ar ragdybiaethau neu brosesau papur llafurus o ran amser. Yn yr ystyr hwn, roedd LIFT yn ddefnyddiol gan ei fod yn eu galluogi i gynnal dadansoddiadau nad oeddent wedi'u cynnal o'r blaen. Mewn rhai achosion penodol, cyfrannodd LIFT at symleiddio prosesau presennol, gan wneud y gwaith parhaus o nodi pobl nad ydynt yn hawlio yn fwy awtomataidd ac yn fwy cywir nag o'r blaen. Er enghraifft, roedd mapiau gwres, hidlwyr a gwahanol ddulliau o ddadgyfuno data drwy'r LIFT yn helpu awdurdodau lleol i flaenoriaethu ardaloedd â lefelau uchel o anghenion heb eu diwallu. Hefyd, tynnodd awdurdod lleol Math B sylw at y ffaith bod LIFT wedi eu helpu i ganolbwyntio eu hymdrechion ar yr aelwydydd cywir, gan wella'r targedu a'r canlyniadau.

**Serch hynny, dim ond pan fo digon o gapasiti ac adnoddau ar waith y gellir manteisio'n llawn ar fanteision yr offeryn**

Mae capasiti staff yn ffactor hanfodol wrth benderfynu a all awdurdodau lleol wneud defnydd effeithiol o LIFT. Mewn llawer o achosion, er enghraifft, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol ail-leoli a chynyddu amser ac adnoddau staff nid yn unig i baratoi ar gyfer LIFT a chynefino â'r offeryn, ond hefyd i'w gynnal a'i ddiweddaru ar gyfer defnydd parhaus. Roedd cadw LIFT yn gyfredol yn gofyn am gyflwyno data'n rheolaidd, sy'n cymryd amser i'w gasglu a'i baratoi. Yn yr ystyr hwn, fel y nodwyd, er mwyn i'r offeryn fod yn ddefnyddiol, mae angen amser staff parhaus, a dyma lle mae llawer o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd, gan eu bod yn aml yn brin o staff. Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd awdurdodau lleol nad oedd ganddynt unrhyw staff yn gweithio'n llawn amser ar LIFT a'r ymgyrchoedd sy'n deillio ohono. Mewn rhai achosion, nid oedd ganddynt chwaith staff wedi'u neilltuo'n llawn amser i'r nod o gynyddu manteisio, nac i ddarparu budd-daliadau lles yn gyffredinol.

Yn ogystal, nododd rhai awdurdodau lleol fod anghywirdebau yn y data a ddarparwyd gan LIFT, a nodwyd bod angen i staff adolygu a chywiro’r materion hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth Edwards, Gillies, and Gorin (2021), sy’n trafod bod offer sy’n seiliedig ar ddata yn agored i anghywirdebau, rhagfarn, a hyd yn oed effeithiau gwahaniaethol posibl. Maen nhw’n pwysleisio, heb allu staff i gwestiynu ac archwilio allbynnau’n feirniadol, fod perygl y gall data diffygiol neu ragfarnllyd fynd heb ei herio a dylanwadu ar wneud penderfyniadau.

Yn olaf, pwysleisiodd awdurdodau lleol, er fod yr offeryn yn gallu dangos bylchau mewn derbyn budd-daliadau, nad yw’n disodli’r gwaith dilynol sydd ei angen gydag aelwydydd er mwyn mynd i’r afael â’r broblem. I rai awdurdodau lleol, roedd yr effaith yn dibynnu’n helaeth ar eu capasiti eu hunain i gyflawni’r gwaith dilynol angenrheidiol, gan gynnwys cysylltu â thrigolion a darparu cymorth priodol. Yn yr ystyr hwn, er mwyn i LIFT fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynyddu derbyn, roedd angen i awdurdodau lleol neilltuo staff nid yn unig i weithio gyda’r offeryn, ond hefyd i gynnal ymgyrchoedd ac ymgysylltu â thrigolion.

**Dechreuodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drwy dargedu pobl gymwys nad ydynt yn hawlio Credyd Pensiwn**

O ran y blaenoriaethau polisi a nodwyd yn ystod ymgysylltu cynnar â’r offeryn, dechreuodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drwy ganolbwyntio ar Gredyd Pensiwn. Canolbwyntiwyd yn gyntaf ar y budd-dal penodol hwn am sawl rheswm, gan gynnwys lefelau uchel o hawliadau heb eu hawlio ymhlith trigolion hŷn. Nododd rhai awdurdodau lleol hefyd fod ansawdd data yn rheswm dros ganolbwyntio ar Gredyd Pensiwn, gyda phryderon ynghylch lefelau is o gywirdeb yn rhai o ffigurau LIFT sy’n ymwneud â chymhwystra ar gyfer buddion sy’n gysylltiedig ag addysg. Ar ôl i’r gwaith cychwynnol ar Gredyd Pensiwn ddechrau, ehangodd rhai awdurdodau lleol y defnydd o’r offeryn i dargedu budd-daliadau eraill, gan gynnwys Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a Budd-dal Tai ar gyfer pensiynwyr (nid yw unigolion o oedran gweithio yn derbyn Budd-dal Tai mwyach, gan ei fod wedi’i integreiddio i mewn i UC).

Mewn rhai achosion, nododd awdurdodau lleol eu bod wedi defnyddio LIFT yn fwy eang i gysylltu trigolion ag ystod ehangach o wasanaethau cymorth. Er enghraifft, defnyddiodd rhai awdurdodau lleol y llwyfan i rannu gwybodaeth â rhai aelwydydd penodol, gan gynnwys sesiynau gwybodaeth Dŵr Cymru, mentrau gwydnwch ariannol sy’n cynnig cyngor ariannol a chymorth ynni, neu i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhad ac am ddim. Hefyd, defnyddiodd un awdurdod lleol ddata o LIFT i gysylltu â phobl â chyflyrau iechyd neu namau, gyda’r nod o gyflwyno sgyrsiau cynnar, ysgafn ynghylch llesiant a llwybrau posibl yn ôl i’r gwaith. Yn yr un modd, defnyddiodd awdurdodau lleol eraill LIFT at ddiben cynnal gweithdai cyflogadwyedd. Mae’r datblygiad hwn yn adlewyrchu cromlin ddysgu lle daeth LIFT yn aml yn rhan o arferion dydd i ddydd, lle dechreuodd capasiti mewnol gynyddu, a lle defnyddiwyd LIFT i gefnogi ystod ehangach o ymyriadau.

**Mae cyfyngiadau i LIFT, megis anghywirdebau yn y data neu gwmpas cyfyngedig**

Nododd rhai awdurdodau lleol fod camosod rhwng maint y disgwyliadau a realiti’r offeryn, er eu bod, mewn llawer o achosion, yn teimlo ei fod yn dal yn werthfawr iawn. Er enghraifft,

amlygodd rhai awdurdodau lleol y ffaith bod ffigurau a rannwyd yn wreiddiol gan Policy in Practice yn awgrymu bod mwy na 2,000 o bensiynwyr yn colli allan ar Gredyd Pensiwn yn yr ardal. Ar y sail hon, rhoddodd un awdurdod lleol flaenoriaeth i bensiynwyr ac roedd yn disgwyl derbyn rhestr fawr o aelwydydd i'w targedu ar gyfer ymgysylltu. Fodd bynnag, pan ddarparwyd y set ddata gyntaf, dim ond tua 150–180 o achosion posibl a nodwyd. Cododd mater tebyg gyda phobl oedd yn gymwys ar gyfer UC nad oeddent yn hawlio, lle nododd awdurdod lleol fod miloedd o achosion wedi'u hawgrymu'n wreiddiol gan Policy in Practice/LIFT, ond mai ychydig dros 100 a nodwyd mewn gwirionedd.

Creodd hyn heriau wrth reoli disgwyliadau, gan fod cynghorwyr wedi disgwyl ymgysylltu â channoedd o aelwydydd ac effaith sylweddol ar incymau lleol. Serch hynny, er bod y niferoedd yn llawer is na'r disgwyl, roedd awdurdodau lleol yn cydnabod bod yr offeryn yn dal i helpu i ganolbwyntio sylw ar grwpiau allweddol. Daeth LIFT ddata ynghyd na fyddai awdurdodau lleol wedi cael y capasiti i'w greu â llaw.

O ystyried cyfyngiadau cynhenid data gweinyddol a'r angen i wneud rhagdybiaethau, mae rhywfaint o anghywirdeb wrth ragfynegi pobl gymwys nad ydynt yn derbyn budd-daliadau bron yn anochel, a gwelsom amrywiaeth o brofiadau ymhlith awdurdodau lleol o ran pa mor rhwystrol oedd yr anghywirdebau hyn yn ymarferol. Nododd un awdurdod lleol fod amherffeithrwydd yn y data yn rhwystr sylweddol i ddefnyddio'r offeryn yn ddibynadwy ac yn hyderus. Roedd wedi nodi pobl fel unigolion cymwys nad oeddent yn derbyn budd-daliadau fel Lwfans Presenoldeb neu Gredyd Pensiwn pan oeddent eisoes yn derbyn y budd-daliadau hynny, neu pan nad oeddent yn gymwys o gwbl, er enghraifft oherwydd bod rhywun yn hawlio Lwfans Gofalwr ar eu rhan. O ganlyniad, teimlai'r cyngor nad oedd yn gallu defnyddio'r rhestrau a ddarparwyd yn hyderus, gan y byddai cysylltu â'r trigolion hynny wedi bod yn amhriodol ac yn gamarweiniol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd angen i'r awdurdod ail-ddilysu'r data, ei groeswirio yn erbyn cronfeydd data ychwanegol, a chysoni anghysondebau er mwyn cynhyrchu set ddata fwy cywir a dibynadwy, cyn symud ymlaen i gynnal ymgyrchoedd.

Yn ogystal, mae sampl yr offeryn wedi'i chyfyngu i fuddiolwyr Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a UC. Mae hyn yn golygu nad yw'n gallu nodi unigolion nad ydynt yn hawlio unrhyw fudd-daliadau o gwbl, gan adael rhan o'r boblogaeth gymwys y tu allan i gwmpas yr offeryn. Mae Policy in Practice yn datblygu model i gynnwys ffynonellau eraill, ond nid yw hwn wedi'i gwblhau eto.

**Y potensial i ddatblygu a gweithredu offeryn dadansoddol fel LIFT yn fewnol**

Mae'r cynllun peilot wedi cynyddu ymwybyddiaeth o werth posibl dulliau sy'n seiliedig ar ddata, ac mae rhai awdurdodau lleol wedi ystyried p'un ai LIFT yw'r unig ffordd o nodi unigolion cymwys sy'n colli allan ar fudd-daliadau. Mae hyn wedi arwain at fyfyrio ar p'un a ellid cynnal dadansoddiad tebyg yn fewnol neu mewn cydweithrediad â'r DWP yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn cydnabod y byddai datblygu offeryn mewnol cynhwysfawr yn gofyn am lawer mwy o amser ac adnoddau na defnyddio'r LIFT. Daeth llawer i'r casgliad, wrth bwyso a mesur capasiti'r cyngor yn erbyn cost y llwyfan, fod LIFT yn opsiwn mwy ymarferol a chymesur. Er y gallai awdurdodau lleol ddatblygu offer mwy

cyfyngedig gan ddefnyddio eu data a'u harbenigedd eu hunain, byddai gwneud hynny'n gofyn am gydlynu agos â thimau eraill, yn enwedig timau TG, ac mae eu blaenoriaethau cystadleuol yn gwneud hyn yn anodd ac yn drwm o ran adnoddau.

Er enghraifft, nododd awdurdod lleol Math A fod y platfform eisoes wedi dod yn waith ychwanegol, fel tîm bach o ddim ond dau berson, a byddai datblygu offeryn mewnol yn gofyn am hyd yn oed mwy o waith. Roedd cyngor Math B yn archwilio a ellid efelychu rhai o swyddogaethau LIFT yn fewnol, er ei bod yn annhebygol y byddai mor gynhwysfawr. Ar y llaw arall, tynnodd awdurdod lleol Math C sylw at y ffaith, ar wahân i gost gychwynnol datblygu offeryn mewnol, y byddai cynnal system newydd ei dylunio yn gofyn am adnoddau parhaus, yn ychwanegol at yr adnoddau sydd eu hangen i'w defnyddio. Mae diweddariadau data misol yn gofyn am staff penodol i gadw'r system yn gyfredol ac yn gadarn. Heb yr adnoddau hyn, ni all yr awdurdod lleol ail-greu'r system yn fewnol na manteisio'n llawn ar y mewnwelediadau a ddarperir gan LIFT, er ei botensial i gynhyrchu enillion ariannol sylweddol o gymharu â'i gost.

Serch hynny, mae rhai awdurdodau lleol o'r farn, er bod LIFT yn ddefnyddiol, fod ganddynt bryderon ynghylch ei gost ac a ph'un yw'n cyflawni effaith ystyrlon y tu hwnt i drefnu data presennol. Maen nhw'n awgrymu y gallai rhywfaint o ddatblygu sgiliau staff o ran defnyddio data a thaenlenni arbed costau a darparu dadansoddiad data tebyg i'r hyn a geir drwy LIFT. Fodd bynnag, nid ydynt wedi dechrau cymryd camau yn hyn o beth hyd yma.

Felly, er bod diddordeb, nid yw awdurdodau lleol yn datblygu a rheoli offeryn o'r fath yn fewnol yn weithredol ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau capasiti ac adnoddau. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod LIFT yn cynnig cydbwysedd mwy ymarferol rhwng cost, arbenigedd a gofynion adnoddau na chreu neu reoli'r broses yn fewnol. O ganlyniad, nododd sawl awdurdod lleol, pe bai adnoddau ariannol ar gael, y byddent yn dewis prynu trwydded LIFT eto. Yn gyffredinol, mae'r dewis maen nhw'n ei wneud rhwng ail-brynu LIFT neu beidio, yn hytrach na datblygu fersiwn fewnol eu hunain. Er enghraifft, gyda'r cynllun peilot yn rhedeg tan fis Mawrth, dechreuodd awdurdod lleol Math C adeiladu achos busnes cryf i'r Pennaeth Gwasanaeth fel y gellir trafod cyllid ar gyfer LIFT.

## 4.5. Allbynnau – Ymgyrchoedd cyfathrebu

Er na lwyddodd yr holl awdurdodau lleol i gynnal ymgyrchodd cyfathrebu a gweld eu canlyniadau erbyn adeg ysgrifennu'n adroddiad hwn, fe wnaeth y rhan fwyaf. Isod, rydym yn crynhoi rhywfaint o'r gwersi a ddysgwyd.

**Roedd y broses gynefino yn destun oedi, gan adael ychydig o amser i gynnal a gwella ymgyrchoedd cyfathrebu**

Amlygodd awdurdodau lleol fod cryn dipyn o amser wedi'i dreulio yn trefnu'r broses i ddefnyddio'r system, a oedd yn lleihau'r amser oedd ar gael i ddefnyddio'r LIFT yn llawn. O ganlyniad, lansiwyd y rhan fwyaf o ymgyrchoedd yn ail hanner cyfnod y cynllun peilot yn unig, gan gyfyngu ar effaith yr ymgyrchoedd. Serch hynny, pwysleisiodd y rhan fwyaf ohonynt fod yr ymgyrchoedd a lansiwyd wedi eu helpu i ddeall potensial yr offeryn. Nododd rhai gynnydd yn nifer yr aelwydydd y cysylltwyd â nhw drwy ymgyrchoedd cyfathrebu, gan ddangos potensial y platfform i ehangu ymgysylltu.

Roedd profiadau'n amrywio o ran estyniad y peilot. Er nad oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn bwriadu lansio ymgyrchoedd ychwanegol, roedd rhai yn bwriadu defnyddio'r wythnosau sy'n weddill i gynnal un ymgyrch olaf, gyda'r nod o wneud y mwyaf o fanteision platfform LIFT cyn i'r cynllun peilot ddod i ben.

**Dull, dyluniad, a chynnwys**

Dywedodd awdurdodau lleol mai anfon **llythyrau** wedi'u targedu oedd eu prif ddull o ymgysylltu. Dewiswyd derbynwyr y llythyrau ar sail yr aelwydydd a nodwyd drwy ddefnyddio platfform LIFT ac ar sail blaenoriaethau polisi. Dywedodd awdurdodau lleol fod ganddynt fynediad at dempledi o ymgyrchoedd blaenorol, yn ogystal â thempledi a rannwyd gan Policy in Practice, a wnaeth eu helpu i baratoi'r deunyddiau i'w hanfon. Addasodd pob awdurdod lleol y deunyddiau hyn i gyd-fynd â brandio eu cyngor eu hunain, eu fformatau a'u hunaniaeth weledol.

Rhoddodd awdurdodau lleol sylw manwl i ddyluniad y llythyrau, gan geisio cynyddu cyfraddau ymateb trigolion. Yn gyffredinol, nid oeddent yn fwy na dwy dudalen o hyd, roeddent yn defnyddio iaith uniongyrchol a chlir, ac fe'u hysgrifennwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er mwyn lleihau pryder ac amheuaeth ymhlith derbynwyr, nododd un awdurdod lleol eu bod yn osgoi amlenni brown - sy'n aml yn cael eu cysylltu â dyled - ac yn defnyddio amlenni gwyn yn lle hynny, gan gynnwys brandio'r cyngor er mwyn sicrhau'r derbynwyr bod yr ohebiaeth yn ddilys. Roeddent hyd yn oed yn ystyried defnyddio cardiau post yn y dyfodol, a fyddai'n cyflwyno'r wybodaeth yn uniongyrchol yn hytrach na gadael i dderbynwyr benderfynu p'un a ddylent agor amlen.

Fel rhan o'r dull hwn, roedd y llythyrau fel arfer yn cynnwys rhifau ffôn uniongyrchol ar gyfer ceisiadau, ymholiadau neu arweiniad ar y broses. Yn y modd hwn, anogwyd derbynwyr i gysylltu â'r awdurdod lleol neu sefydliadau cymorth perthnasol er mwyn cael rhagor o wybodaeth, naill ai drwy wefan neu dros y ffôn. Mewn rhai achosion penodol, yn enwedig ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim (FSM), roedd y llythyrau hefyd yn cynnwys codau QR a dolenni i dudalennau gwe lle gallai derbynwyr gael gwybodaeth ychwanegol.

Nododd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi cymryd camau dilynol ychwanegol ochr yn ochr ag ymgyrchoedd llythyrau. Gan gydnabod y gallai trigolion amau sgamiau posibl neu fod yn brysur pan fyddant yn derbyn y llythyr, ychwanegodd yr awdurdodau lleol hyn **alwadau ffôn a negeseuon testun** at y llythyrau. Nod y camau dilynol hyn oedd tynnu sylw at y llythyr, esbonio'r broses hawlio, a, lle bo'n briodol, trefnu ymweliadau cartref, a arweiniodd mewn rhai achosion at gymorth wyneb yn wyneb. Fel arfer, cynhaliwyd y camau ategol hyn tua 2 i 3 wythnos ar ôl anfon y llythyrau. Nododd awdurdodau lleol hefyd fod defnyddio sawl sianel gyfathrebu yn fwy effeithiol wrth gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, er eu bod yn cydnabod bod y dull hwn yn fwy trwm o ran adnoddau o safbwynt amser, staff a chostau ariannol.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol mai **ymgysylltu wyneb yn wyneb** oedd y ffordd fwyaf effeithiol o feithrin ymddiriedaeth a chynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau. Mae cwrdd â thrigolion wyneb yn wyneb a chymryd amser i drafod eu hamgylchiadau yn helpu i gynyddu ymddiriedaeth ac yn annog unigolion i ddechrau'r broses hawlio. Fodd bynnag,

roedd awdurdodau lleol yn cydnabod nad yw ymweliadau â chartrefi bob amser yn ymarferol ac maen nhw'n dibynnu ar ffactorau megis capasiti timau a maint daearyddol yr ardal dan sylw.

Mae'n bwysig nodi bod awdurdodau lleol wedi ategu ymgyrchoedd wedi'u targedu ag ymgyrchoedd ehangach. Y cam ychwanegol mwyaf cyffredin oedd defnyddio **cyfryngau cymdeithasol neu hysbysebu all-lein** (er enghraifft, hysbysebu mewn safleoedd bysiau) i bwysleisio'r neges ac ymestyn cyrhaeddiad y llythyrau. Fel yr eglurodd un awdurdod lleol, bwriad y math hwn o hysbysebu oedd cefnogi'r llythyr drwy gynyddu adnabyddiaeth ac ymddiriedaeth: mae hawlydd posibl yn derbyn y llythyr, yn gweld yr hysbyseb, ac felly'n fwy tebygol o gredu bod yr ohebiaeth yn ddilys ac yn penderfynu cysylltu â'r awdurdod lleol.

Nododd awdurdodau lleol fod **ymgyrchoedd llai, wedi'u targedu fwy** yn gallu bod yn fwy effeithiol, gan eu bod yn caniatáu cymorth wedi'i bersonoli'n fwy, gan gynnwys galwadau ffôn dilynol a chanllawiau wedi'u teilwra, yn hytrach nag ymgyrchoedd llythyrau mawr. Yn ogystal â bod yn llai personol, gall ymgyrch anfon llythyrau mawr fod yn gostus, gan fod costau anfon yn cynyddu'n gyflym wrth i gyfanswm y llythyrau gynyddu.

Yn olaf, er bod LIFT wedi galluogi awdurdodau lleol i nodi hawlwyr posibl yn fwy effeithiol, rhaid cynllunio cyfathrebu â thrigolion yn ofalus. Yn ogystal â chynnwys dyluniad a chynnwys llythyrau, mae hefyd yn cynnwys **amlder a nifer y llythyrau**. Pwysleisiodd awdurdodau lleol bwysigrwydd osgoi llethu trigolion, gan fod ymddiriedaeth yn gallu bod yn fregus. Rhybuddiwyd y gallai ymgysylltu dro ar ôl tro arwain at "flinder llythyrau", lle gall gohebiaeth ormodol neu ailadroddus achosi dryswch, lleihau hygrededd, neu gynyddu natur fregus trigolion i sgamiau os ydynt yn ansicr pa negeseuon sy'n ddilys. Er enghraifft, nododd rhai awdurdodau lleol fod trigolion weithiau'n gofyn i gael eu tynnu oddi ar restrau postio. Nid yw hyn bob amser oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu ddiddordeb mewn hawlio budd-daliadau, ond efallai'n gysylltiedig â blinder llythyrau. Yn yr ystyr hwn, gall llythyrau gael yr effaith groes i'r hyn a fwriadwyd oherwydd, fel y dysgwyd drwy ymgysylltu, nododd rhai derbynwyr eu bod yn teimlo'n bryderus wrth dderbyn y llythyr, gan ofni y byddent yn cael eu gorfodi i fynd i'r gwaith neu y gallent golli eu budd-daliadau.

**Rôl sefydliadau cymorth a thimau rheng flaen eraill**

Nododd awdurdodau lleol eu bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau cymorth i helpu i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, gyda Cyngor ar Bopeth yn cael ei nodi fel partner allweddol wrth gefnogi trigolion drwy'r broses hawlio. Roedd llawer o awdurdodau lleol yn cynnwys manylion cyswllt Cyngor ar Bopeth yn llythyrau'r ymgyrchoedd, gan ddarparu ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth ac arweiniad i hawlwyr posibl. Mae Cyngor ar Bopeth yn cefnogi trigolion drwy ddarparu cyngor dros y ffôn ac apwyntiadau wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd lleol, gan helpu unigolion i ddeall eu cymhwystra a chwblhau ceisiadau.

Nododd cynrychiolydd o sefydliad cymorth fod hawlwyr posibl yn aml yn amheus i ddechrau o'r llythyrau ac yn tybio eu bod yn sgamiau. Yn y cyd-destun hwn, roedd galwadau ffôn neu apwyntiadau wyneb yn wyneb yn rhoi sicrwydd ychwanegol i aelwydydd, gan olygu bod ymgysylltiad llafar yn aml yn angenrheidiol cyn i unigolion deimlo'n hyderus i fynd ar

drywydd hawliad. Fel y nododd un awdurdod lleol, mewn rhai achosion roedd trigolion yn ffonio i siarad yn uniongyrchol ag aelod o staff y cyngor neu sefydliad cymorth er mwyn gwirio dilysrwydd y llythyr, gan ddangos bod y llythyrau, er eu bod yn sbarduno pwyll, hefyd yn effeithiol wrth annog ymgysylltiad rhagweithiol.

Fel arfer, roedd sgyrsiau gyda hawlwyr yn pwysleisio camau nesaf clir, gan eu helpu i lywio'r cymorth sydd ar gael a deall sut i gael cymorth pellach os oedd angen. Yna, roeddent fel arfer yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol faint o unigolion oedd wedi cysylltu ac wedi dechrau'r broses hawlio'n llwyddiannus. Yna roedd awdurdodau lleol yn monitro canlyniadau gan ddefnyddio codau adnabod, a oedd yn eu galluogi i olrhain ymgysylltiad a chysylltu gweithgaredd â systemau mewnol.

Nododd sefydliadau cymorth y gall dulliau ymgysylltu amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig. Gall strategaethau sy'n dibynnu ar wasanaethau wyneb yn wyneb neu ymgysylltu ar raddfa fawr fod yn anoddach eu gweithredu mewn ardaloedd gwledig oherwydd rhwystrau daearyddol a mynediad. Yn ogystal, tynnwyd sylw at y ffaith bod y galw am gyngor yn aml yn fwy na chapasiti eu gwasanaethau. O ganlyniad, efallai na fydd hawlwyr posibl sy'n ceisio cymorth yn gallu cael cyngor yn brydlon. Gall yr oedi hwn atal ymgysylltu ac, mewn rhai achosion, arwain at hawlwyr posibl yn rhoi'r gorau i'w bwriad o ddechrau'r broses hawlio.

Nododd awdurdodau lleol hefyd fod cyfyngiadau diogelu data a rhannu data yn aml yn wrthgynhyrchiol. Mewn rhai achosion, roedd cyfyngiadau diogelu data yn atal awdurdodau lleol rhag cynnwys partneriaid neu dimau mewnol eraill yn llawn mewn gweithgareddau ymgysylltu. Er enghraifft, yn aml nid oedd staff Cyngor ar Bopeth yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â hawlwyr posibl, megis drwy alwadau ffôn, oherwydd bod deddfwriaeth diogelu data yn cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i rannu rhifau ffôn gyda nhw (heb y trefniadau llywodraethu data angenrheidiol). Yn lle hynny, roedd Cyngor ar Bopeth yn darparu hyfforddiant i staff awdurdodau lleol, a oedd wedyn yn gwneud y galwadau eu hunain. Mae hyn yn gostus i awdurdodau lleol, gan fod gan staff flaenoriaethau cystadleuol yn aml, ac mae gwneud y galwadau eu hunain yn gallu lleihau'r capasiti i gynnal gweithgareddau ymgysylltu a dilynol eraill o bosibl. Nododd llawer o awdurdodau lleol nad oedd ganddynt ddigon o staff i neilltuo personél yn llawn amser i ymgyrchoedd manteisio ar fudd-daliadau, a all gyfyngu ar faint ac effeithiolrwydd eu hymdrechion.

Yn ogystal â chefnogi ymgyrchoedd derbyn, mae Cyngor ar Bopeth yn darparu gwasanaethau drwy raglenni cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys y Rhaglen Cynghori Cenedlaethol a chynllun cynyddu incwm Llywodraeth Cymru, "Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi", y gellir ei ystyried yn ategiad i ymgyrchoedd LIFT. Nod y mentrau hyn yw helpu cleientiaid i fanteisio i'r eithaf ar eu hincwm drwy gymorth cyfannol, gan fynd i'r afael nid yn unig â hawliau i fudd-daliadau lles ond hefyd â materion cysylltiedig, megis dyled, cyllidebu a gwydnwch ariannol.

## 4.6. Effeithiau - Derbyn ac eraill

**Mae tystiolaeth wedi'i chofnodi yn dangos bod llythyrau yn effeithiol ond nad ydynt yn ddigonol ar eu pen eu hunain i ysgogi newidiadau mawr mewn derbyn**

Yn yr ymgyrchoedd a gyflwynwyd yn ystod y cynllun peilot, disgrifiodd awdurdodau lleol yn amlach na pheidio eu bod yn defnyddio llythyrau dwyieithog yn seiliedig ar dempled a ddarparwyd gan Policy in Practice. Rhoddwyd sylw gofalus i'r naws a'r cyflwyniad, gyda'r llythyrau'n cael eu cadw'n gryno, yn osgoi addo gormod, ac yn defnyddio iaith gadarnhaol a gobeithiol. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu tystiolaeth ymddygiadol o astudiaeth y Behavioural Insights Team (2022) yng Ngogledd Iwerddon, sy'n canfod bod nifer isel sy'n derbyn Credyd Pensiwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan ddryswch ynghylch cymhwystra, ac sy'n argymell defnyddio iaith syml a negeseuon cyson sy'n pwysleisio pa mor hawdd yw gwneud cais a gwerth cronnus budd-daliadau ychwanegol.

Gan fod y dulliau hyn - anfon llythyrau, yn enwedig at bobl sy'n derbyn Credyd Pensiwn - yn ddulliau sydd wedi'u defnyddio mewn cyd-destunau eraill i gynyddu derbyn, mae sylfaen dystiolaeth eisoes yn bodoli ynghylch eu heffeithiolrwydd tebygol. Felly, gallwn ddefnyddio mewnwelediadau o'r dystiolaeth hynod berthnasol hon o gyd-destunau tebyg, ynghyd â'n casgliad data cynradd ein hunain.

Mae tystiolaeth o ymarfer "profi a dysgu" gan DWP (2023) yn cefnogi'r defnydd o lythyrau fel ymyriad sylfaenol effeithiol pan fyddant wedi'u targedu'n dda gyda chymorth data gweinyddol o ansawdd uchel. Yn yr astudiaeth hon, daeth y DWP i'r casgliad bod defnyddio data Budd-dal Tai i nodi pobl nad ydynt yn hawlio, ac anfon llythyrau "Gwahoddiad i Hawlio", wedi gwneud aelwydydd tua chwe gwaith yn fwy tebygol o wneud hawliad llwyddiannus am Gredyd Pensiwn na'r rhai mewn grwpiau rheoli -fe wnaeth 27.5% o'r rhai a dderbyniodd lythyr hawliad o fewn 4 mis, o'i gymharu â dim ond 4.6% mewn grŵp rheoli tebyg, sy'n awgrymu bod ychydig dros 20% o'r rhai wnaeth dderbyn llythyr wedi gwneud hawliad na fyddent fel arall wedi'i wneud. Mae hyn yn dangos gwerth posibl ymgyrchoedd llythyrau sy'n seiliedig ar ddata. Un wers ychwanegol o waith y DWP yw pwysigrwydd cael gwybodaeth gywir am bwy sy'n debygol o fod yn gymwys yn y lle cyntaf, er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei thargedu'n briodol. Mewn iteriad cynnar o waith y DWP, cyn iddynt fireinio'r broses o nodi pobl gymwys nad oeddent yn derbyn budd-daliadau, roedd cyfran fawr o'r rhai a dderbyniodd lythyrau mewn gwirionedd yn anghymwys ar gyfer Credyd Pensiwn.

Yng nghynllun peilot yr LIFT, nododd rhai awdurdodau lleol hefyd eu bod wedi defnyddio taflenni gyda chodau QR, galwadau ffôn neu ymweliadau cartref fel strategaethau ychwanegol, er bod y rhain yn dod â chost uwch ac yn llai cyffredin.

Nododd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cyflenwi fod yr ymgyrchoedd wedi helpu i fynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth. Mae Hoynes, Joyce, and Waters (2024) yn disgrifio ymchwil sy'n dangos y gall anfon llythyrau gwybodaeth arwain at gynnydd (cymedrol) mewn derbyn drwy gywiro credoau anghywir am gymhwystra. Fodd bynnag, fe wnaeth yr awduron ganfod bod effaith ymyriadau gwybodaeth yn anghyfartal. Mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn llai effeithiol ar gyfer aelwydydd incwm isel sydd â chysylltiad gwan â systemau'r

llywodraeth, tra bod unigolion sydd eisoes yn ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tebygol o ymateb yn gadarnhaol. Mae cyfuno gwybodaeth glir â chymorth ymarferol - megis help i lenwi ffurflenni neu lywio prosesau ymgeisio - yn cael effaith llawer cryfach ar hawlio hawliad. Gwelwyd hyn yn ystod y cynllun peilot, gan fod awdurdodau lleol yn aml yn pwysleisio rôl cymorth Cyngor ar Bopeth, a oedd, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, yn bwysig iawn ar gyfer y broses hawlio (fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol).

Mae tystiolaeth o brofion llythyrau a anfonwyd gan CThEF at unigolion a nodwyd fel rhai a allai fod wedi colli allan ar Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref rhwng 2023 a 2024 (Heppel and Brown, 2025) yn dangos nad diffyg gwybodaeth yw'r prif reswm dros niferoedd derbyn isel, ond yn hytrach rhwystrau i ymgysylltu a gweithredu. Roedd prif heriau'n cynnwys ymddiriedaeth isel mewn gohebiaeth swyddogol, ofn sgamiau, sgiliau digidol cyfyngedig, a diffyg dealltwriaeth o sut roedd y budd-dal yn gysylltiedig ag amgylchiadau hanesyddol. Ni wnaeth llawer o dderbynwyr ymgysylltu'n llawn â'r llythyrau, gan dybio nad oeddent yn berthnasol iddynt, neu'n dibynnu ar eu hasesiadau eu hunain (oedd yn aml yn anghywir) o gymhwystra. Roedd ansicrwydd ynghylch enillion posibl a phryderon am risgiau canfyddedig hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd o wneud cais.

Mae canfyddiadau ymchwil CThEF (Heppel and Brown, 2025) yn awgrymu, er bod nodi yn seiliedig ar ddata yn sylfaen gadarn ar gyfer gwella derbyn, mae llythyrau ar eu pen eu hunain yn annhebygol o fod yn ddigonol ar gyfer grwpiau sy'n wynebu nifer o rwystrau a rhwystrau sy'n gorgyffwrdd. Mae effeithiolrwydd targedu dadansoddol yn dibynnu ar ei ategu gan gyfathrebu clir a dibynadwy a llwybrau cymorth hygyrch, yn enwedig ar gyfer poblogaethau hŷn a'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol - fel y gallai fod yn yr achos hwn, gan mai Credyd Pensiwn oedd y budd-dal a dargedwyd fwyaf.

**Bu cynnydd mewn dyfarniadau ac enillion ariannol ar draws awdurdodau lleol**

Amrywiodd canlyniadau'r ymgyrchoedd rhwng awdurdodau lleol, gyda rhai awdurdodau lleol ond yn y camau cynnar o estyn allan at aelwydydd (Math A a rhai Math B), tra bod eraill wedi cyrraedd y pwynt o gynnal ymgyrchoedd a gweld cynnydd mewn cysylltiadau neu ddyfarniadau (rhai Math B a Math C). Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y canlyniadau a adroddwyd gan yr olaf o'r rhain.

Roedd y ffigurau effaith isod, fel yr adroddwyd gan awdurdodau lleol, wedi'u cysylltu gan yr awdurdodau lleol â'r ymgyrchoedd cyfathrebu gan ddefnyddio gwahanol ddulliau. Cysylltodd rhai awdurdodau lleol ddyfarniadau â'u hymgyrchoedd ar sail amseriad yr hawliadau a'r dyfarniadau. O'r pwynt pan oedd awdurdodau lleol yn estyn allan at aelwydydd am y tro cyntaf hyd at y foment y dyfarnwyd budd-dal, roedd y daith yn aml yn un hir. Yn seiliedig ar adroddiadau awdurdodau lleol a dadansoddiad o ddata eilaidd, roedd oedi o tua 3 i 4 mis ar gyfartaledd rhwng y ddau. Helpodd yr amcangyfrif hwn awdurdodau lleol i olrhain uchafbwyntiau dilynol mewn hawliadau a dyfarniadau yn ôl at ymgyrchoedd penodol.

Yn lle hynny, ceisiodd rhai awdurdodau lleol gysylltu hawliadau newydd â'u hymgyrchoedd cyfathrebu drwy broses fwy llawdrwm, gyda staff yn mynd ar drywydd achosion unigol neu'n

dibynnu ar wybodaeth gan sefydliadau partner. Mae enghreifftiau o ddulliau llaw ar gyfer olrhain canlyniadau a amlygwyd gan awdurdodau lleol yn cynnwys:

- cydweithio agos â phartneriaid allanol, megis Cyngor ar Bopeth, i gefnogi cyflwyno a monitro'r ymgyrch
- galwadau ffôn dilynol i asesu canlyniadau ymgyrchoedd, er bod y dull hwn yn drwm o ran adnoddau, yn cymryd llawer o amser ac yn araf
- ymweliadau drws-i-ddrws, gyda un awdurdod lleol yn nodi bod aelod staff llawn amser wedi cynnal ymweliadau â 100 o aelwydydd i wirio hawliadau budd-daliadau, gan arwain at 24 o aelwydydd yn hawlio budd-daliadau newydd

Er bod Traciwr Canlyniadau LIFT wedi'i grybwyll fel offeryn i fonitro aelwydydd y gysylltwyd â nhw, nododd nifer o awdurdodau lleol fod angen gwella'r platfform o ran olrhain canlyniadau ymgyrchoedd. Yn ei fformat presennol, mae awdurdodau lleol yn adrodd ei bod yn anodd pennu beth yn union a gyflawnwyd a pha mor bell y gellir priodoli'r canlyniadau hynny i LIFT. Maen nhw'n teimlo bod adroddiadau canlyniadau ymgyrchoedd yn ganlyniadau lefel uchel a bod diffyg priodoli clir i ymgyrchoedd penodol. I grynhoi, cysylltwyd y canlyniadau a adroddwyd gan awdurdodau lleol â defnydd o LIFT a'r ymgyrchoedd cyfathrebu dilynol, ond roedd lefel yr hyder wrth briodoli'r canlyniadau i'r ymgyrchoedd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol.

Y prif fudd-dal, a'r un a dargedwyd gyntaf oedd Credyd Pensiwn. Yn aml, ategwyd hyn gan ymgyrchoedd wedi'u targedu at Lwfans Gweini, PIP a Budd-dal Tai i bensiynwyr. Penderfynodd awdurdodau lleol estyn allan at grŵp bach, wedi'i dargedu o bobl nad oeddent yn hawli - fel arfer rhwng 100 a 250 o aelwydyd yr un - gan flaenoriaethu preswylwyr yr oeddent yn hyderus eu bod wir yn gymwys, gan gynyddu'r tebygolrwydd o gyfraddau ymateb uwch. Ar gyfartaledd, yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd awdurdodau lleol wrthym, cafodd tua 15% o'r rhai y gysylltwyd â nhw drwy lythyr, neges destun a/neu alwad ffôn ddyfarniad hawliad o'r budd-dal wedi'i dargedu dan sylw yn dilyn yr ymgyrch. O ystyried nifer y llythyrau a anfonwyd fel arfer, byddai hyn yn awgrymu bod awdurdodau lleol a gynhaliodd ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu wedi gweld tua 20 o ddyfarniadau ar gyfartaledd ar ôl pob ymgyrch.

Ar gyfer Credyd Pensiwn, er enghraifft, nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ystod o 5 i 30 o ddyfarniadau yn dilyn ymgyrch, fel arfer yn cynnwys llythyrau ac weithiau wedi'u hategu gan negeseuon testun a galwadau ffôn. Cafodd pob un o'r dyfarniadau hyn effaith ystyrlon ar incwm aelwydydd, gydag enillion ariannol blynyddol cyfartalog o £3,800, yn seiliedig ar adroddiadau awdurdodau lleol yn y cyfweliadau yng Ngham 2. Yn gyffredinol, ar gyfartaledd, roedd hyn yn cyfateb i tua £60,000 o ddyfarniadau Credyd Pensiwn blynyddol ychwanegol fesul awdurdod lleol. Yn yr un modd, nododd awdurdodau lleol a dargedodd aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer Lwfans Gweini ystod o 5 i 40 o ddyfarniadau newydd yn dilyn ymgyrchoedd. Roedd yr enillion ariannol blynyddol cysylltiedig, ar gyfartaledd, wedi'i adrodd gan awdurdodau lleol, yn tua £4,500, gan ychwanegu hyd at tua £60,000 (blynyddol) ar lefel yr awdurdod lleol. Dyfarnwyd llai o PIPs (hyd at 15), ond gyda gwerthoedd cyfartalog uwch (£7,000 y flwyddyn). Daeth yr holl ffigurau hyn o'n

hymgysylltiad ag awdurdodau lleol, ac maen nhw'n adlewyrchu eu hamcangyfrifon yn seiliedig ar yr amrywiaeth o dechnegau a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer priodoli hawliadau i ymgyrchoedd.

Ar gyfartaledd, roedd cyfanswm yr enillion ariannol blynyddol i incwm aelwydydd mewn awdurdodau lleol a gynhaliodd ymgyrchoedd wedi'u targedu tua £200,000, gan gyfuno'r holl ymgyrchoedd budd-daliadau a ddeilliodd o dreial LIFT. Mae hyn yn gyfartaledd dros yr holl awdurdodau lleol a gymerodd ran y buom yn siarad â nhw a gynhaliodd ymgyrchoedd o ganlyniad i LIFT (hynny yw, heb gynnwys awdurdodau lleol na gyrhaeddodd y cam hwnnw neu nad oedd ganddynt ffigurau i'w hadrodd).

Ar y llaw arall, nododd awdurdodau lleol yn aml na fyddai timau wedi gwybod sut i dargedu'n effeithiol heb yr offeryn, ac y byddent wedi gorfod anfon llythyrau at gynulleidfa llawer ehangach, a fyddai wedi bod yn wastraff adnoddau. Yn y modd hwn, mae'r LIFT wedi profi'n ddefnyddiol wrth sicrhau bod ymgyrchoedd cyfathrebu'n cael eu targedu'n fwy, gan leihau'r angen am bostio eang a lleihau dibyniaeth ar dimau eraill, megis TG, neu ar ymdrechion llaw.


Yn ogystal, mae'n debygol y bydd effeithiolrwydd LIFT fel offeryn yn cynyddu dros amser, gan bod awdurdodau lleol yn teimlo eu bod wedi dysgu sut i'w ddefnyddio yn y ffordd orau a'u bod yn gallu manteisio ar y gwersi hynny. Yn gysylltiedig â hyn, maen nhw bellach wedi ysgwyddo llawer o'r costau cychwynnol o ran amser ac ymdrech sydd eu hangen i ddefnyddio'r offeryn yn effeithiol.

**Er gwaethaf y cynnydd yn y nifer sy'n derbyn, mae'n annhebygol bod y rhain wedi cael effaith amlwg ar lefel gyfanredol**

Mae data hawliadau a dyfarniadau Credyd Pensiwn, a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar gan y DWP ar gyfer y cyfnod hyd at ganol fis Tachwedd 2025, yn dangos nifer y hawliadau a'r dyfarniadau bob wythnos ar lefel awdurdod lleol. Gan mai Credyd Pensiwn oedd y budd-dal a dargedwyd amlaf gan awdurdodau lleol a gymerodd ran yng nghynllun peilot LIFT, ac oherwydd bod y data yn caniatáu i ni olrhain hawliadau a dyfarniadau yn ôl awdurdod lleol bron hyd at ddiwedd 2025, rydym wedi dadansoddi'r data hyn i helpu adeiladu darlun pellach o gyfraniad tebygol y cynllun peilot at gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau.

Mae Ffigur 4 yn dangos hawliadau a dyfarniadau Credyd Pensiwn yng Nghymru yn gynnar yn 2023 hyd at fis Tachwedd 2025. Mae'n dangos bod uchafbwynt mewn hawliadau ym mis Medi 2024, wedi'i ddilyn gan uchafbwynt mewn dyfarniadau ym mis Ionawr 2025. Mae maint yr oedi hwn rhwng hawliadau a dyfarniadau yn gyson â'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Mae'r tueddiadau yn y ffigurau ar lefel genedlaethol yn debyg i'r rhai yn Lloegr, ac yn y ddau achos mae'n debygol eu bod wedi'u hysgogi'n bennaf gan y cyd-destun polisi. Yn ystod haf 2024, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'n cyfyngu taliadau tanwydd y gaeaf i bobl sy'n derbyn Credyd Pensiwn. Creodd hyn gymhelliant ychwanegol i hawlio Credyd Pensiwn. Ni chafodd y polisi ei roi ar waith yn y pen draw, ond arweiniodd at fwy o ymwybyddiaeth o gymhwystra ar gyfer Credyd Pensiwn ac, mae'n ymddangos, at gynnydd mewn hawliadau yn Lloegr a Chymru. Felly, ni ddylid priodoli'r uchafbwyntiau hyn i'r cynllun peilot, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2025 yn unig.

**Ffigur 4. Hawliadau a dyfarniadau Credyd Pensiwn, Cymru**





Ffynhonnell: Alma Economics, yn seiliedig ar ddata Credyd Pensiwn a gyhoeddwyd gan y DWP

Mae Ffigurau 5 a 6 yn cyflwyno hawliadau a dyfarniadau Credyd Pensiwn, yn y drefn honno, ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan. Maen nhw'n dangos bod y tueddiadau mewn hawliadau a dyfarniadau yn symud yn weddol debyg ar draws awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan. Felly, hyd at fis Tachwedd 2025, mae'n annhebygol bod LIFT wedi cael effaith gyfrannol fawr ar lefel gyfanredol ar y gyfradd derbyn yn yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan (o leiaf hyd yma). Pe bai hyn wedi digwydd, byddem yn disgwyl gweld mwy o dystiolaeth o hyn yn y Ffigurau. Cofiwch fod 2/3 o'r rhai sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn eisoes yn ei hawlio. Felly, pe bai'r nifer sy'n ei dderbyn yn cynyddu i'w uchafswm damcaniaethol (h.y. 100%), byddai hyn yn cynyddu'r niferoedd yn y ffigurau tua 50% (nid yw hwn yn senario realistig, ond mae'n ffordd o gael syniad o'r raddfa wrth edrych ar y Ffigurau).


Mae'r ffigurau'n cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd awdurdodau lleol wrthym. Ar gyfartaledd, mae tua 30–35 o ddyfarniadau Credyd Pensiwn newydd yn cael eu gwneud bob mis mewn awdurdod lleol nodweddiadol. O'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid, amcangyfrifodd awdurdodau lleol fod ymgyrch sy'n seiliedig ar LIFT wedi arwain at tua 20 o ddyfarniadau ychwanegol, gan nodi nad oedd ymgyrchoedd Credyd Pensiwn yn cael eu cynnal bob mis. Mae hyn yn golygu, ar gyfer awdurdodau a gynhaliodd un ymgyrch yn unig, fod yr effaith yn cynrychioli cynnydd unwaith ac am byth o tua 20 o ddyfarniadau o'i gymharu â thua 400 o ddyfarniadau newydd a wnaed ar draws 2025. Hyd yn oed lle cyflwynwyd mwy nag un ymgyrch, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod yr effaith gyfrannol gyffredinol ar ddyfarniadau blynyddol yn debygol o fod yn fach.

**Ffigur 5. Hawliadau Credyd Pensiwn, yn ôl cyfranogiad yn y cynllun peilot**




Ffynhonnell: Alma Economics, yn seiliedig ar ddata Credyd Pensiwn a gyhoeddwyd gan y DWP

**Ffigur 6. Dyfarniadau Credyd Pensiwn, yn ôl cyfranogiad yn y cynllun peilot**




Ffynhonnell: Alma Economics, yn seiliedig ar ddata Credyd Pensiwn a gyhoeddwyd gan y DWP

Mae'n werth nodi rhywfaint o bwyntiau pwysig ochr yn ochr â hyn, er cyd-destun. Yn ein hymgysylltiad, roedd awdurdodau lleol yn aml yn dal i ystyried bod y cynnydd mewn nifer sy'n derbyn a gyflawnwyd yn llwyddiant. Nid yw dweud nad yw'r newidiadau hyd yma wedi bod yn fawr ar lefel gyfanredol yn golygu nad oedd yr ymyriad yn werth chweil (a fyddai'n gofyn am ddadansoddiad cost a budd systematig). Yn ogystal â hynny, efallai nad yw'r effeithiau wedi gwireddu'n llawn eto, gan y gall rhai canlyniadau o ymgyrchoedd gymryd mwy o amser i droi'n hawliadau. Yn olaf, fel y trafodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, bu buddsoddiadau a gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot a allai gael manteision hirdymor, o ran cynyddu'r nifer sy'n derbyn hawliadau yn ogystal â chanlyniadau eraill.

Yn y pen draw, mae budd-daliadau yn chwarae rôl ganolog wrth leihau tlodi ac amddifadedd drwy gynyddu incwm aelwydydd yn uniongyrchol a diogelu unigolion rhag siociau economaidd andwyol. Fodd bynnag, gall eu heffeithiau neu eu rhesymeg ymestyn y tu hwnt i hyn, drwy hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb a chynhwysiant rhwng aelwydydd â gwahanol anghenion - megis anghenion pobl anabl neu blant - a gwella cyfleoedd bywyd hirdymor, yn enwedig i blant. Drwy leddfu pwysau ariannol, gall budd-daliadau wella safonau byw materol a chyfrannu at well lles drwy leihau straen, cynyddu sicrwydd ariannol, a chynyddu'r gallu i ddiwallu anghenion hanfodol, megis tai, maeth a gofal iechyd. Yn gyffredinol, byddai disgwyl effeithiau o'r fath o ganlyniad i gynnydd mewn derbyn, er bod yr effeithiau ar gyfleoedd bywyd hirdymor yn fwy cyfyngedig pan fo pensiynwyr yn cael eu targedu (fel sydd wedi bod yn aml yn achos y cynllun peilot, er nad fel rheol gyffredinol). Mae'r pwyntiau hyn ac eraill wedi'u trafod yn fanylach yn Deaton Review of Inequalities (Hoynes, Joyce, and Waters, 2024).

**Daeth dysgu a rhannu gwybodaeth i'r amlwg fel budd ychwanegol allweddol**

Un canlyniad anuniongyrchol o'r cynllun peilot oedd ffurfio cymuned ymarfer ymhlith yr awdurdodau lleol a gymerodd ran. Roedd cyfarfodydd rhaglen ac arfer gorau bob deufis, dan arweiniad Llywodraeth Cymru a Policy in Practice, oedd yn galluogi awdurdodau lleol i gael fforwm gyda chyfoedion i rannu strategaethau, cymharu dulliau, a dysgu o brofiadau'r naill a'r llall. Er enghraifft, nododd un awdurdod lleol eu bod wedi dysgu o'r trafodaethau hyn, gan gynnwys adegau pan oedd estyn allan drws-i-ddrws wedi profi'n fwy effeithiol na llythyrau, a hefyd ynghylch defnyddio iaith neu ddyluniad penodol mewn llythyrau a anfonwyd gan awdurdodau lleol eraill. Soniodd awdurdod lleol arall ei fod yn awyddus i ddysgu am ymgyrchoedd sydd wedi'u hanelu at gynyddu'r nifer sy'n derbyn Cychwyn Iach, gan ei fod yn dymuno mynd ar drywydd hyn yn y dyfodol. Nododd hefyd fod y cyfarfodydd rhaglen ac arfer gorau bob deufis yn rhoi cyfle gwerthfawr i ddysgu gan awdurdodau lleol eraill yn hyn o beth. Ar y llaw arall, mae nifer o awdurdodau lleol wedi dysgu llawer am werth data wrth helpu i ganolbwyntio ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n derbyn, ac maen nhw hefyd yn teimlo eu bod wedi dysgu'n benodol am blatfform LIFT, y gallent adeiladu arno yn y dyfodol.

# 5. Astudiaethau Achos

Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno 3 astudiaeth achos sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau a gwersi allweddol o 3 math gwahanol o brofiad awdurdodau lleol gyda chynllun peilot LIFT. Yn gyntaf, rydym yn cynnwys astudiaeth achos ar gyfer awdurdod lleol Math A—y rhai a brofodd yr anawsterau mwyaf wrth weithredu a gwneud defnydd effeithiol o'r offeryn. Yna rydym yn cyflwyno astudiaeth achos o awdurdod lleol Math B—y rhai a oedd yn gallu defnyddio'r offeryn a chynnal ymgyrchoedd ond a wynebodd gyfyngiadau capasiti, gan arwain at adrodd bod defnydd parhaus o'r offeryn yn dibynnu ar p'un a yw'r buddsoddiadau gofynnol yn gymesur â'r manteision. Yn olaf, rydym yn cyflwyno astudiaeth achos Math C, sy'n cynrychioli awdurdodau lleol a gafodd brofiad cadarnhaol iawn gyda'r platfform ac sy'n awyddus i barhau i'w ddefnyddio.

## 5.1. Astudiaeth achos A

Mae'r astudiaeth achos Math A wedi'i strwythuro o amgylch 2 enghraifft yn yr un math o awdurdod lleol. Er bod y ddwy enghraifft wedi rhannu profiadau tebyg yn ystod y cam cynefino ac wedi adrodd myfyrdodau cyffredinol tebyg ar y cynllun peilot, roeddent yn wahanol o ran y prif rwystrau a brofwyd. Mae cyflwyno'r enghreifftiau hyn ochr yn ochr yn helpu i ddangos sut y gall ffactorau penodol ddylanwadu ar weithredu a chanlyniadau. Yn ogystal â hynny, mae'n werth nodi mai awdurdodau lleol Math A yw'r lleiaf o ran nifer, ac y byddant, po fwyaf o amser sydd ganddynt i ddysgu, yn fwy tebygol o symud ymlaen i fod yn awdurdodau lleol Math B.

**Cynefino**

Profodd y ddwy astudiaeth achos Math A heriau yn ymwneud â gofynion llywodraethu gwybodaeth mewnol yn ystod cam cynefino'r cynllun peilot. Roedd yr heriau hyn yn ddeublyg. Yn gyntaf, nid oedd ganddynt swyddog penodol yn gyfrifol am oruchwylio prosesau llywodraethu, oedd yn golygu bod angen ail-leoli staff neu recriwtio staff newydd. Yn ail, roedd bodloni'r gofynion TG a deddfwriaethol oedd yn angenrheidiol i gyrchu'r data a'i ddefnyddio yn gofyn am gydlynu rhwng sawl tîm mewnol, a gymerodd yn hirach nag a ddisgwyliwyd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd diffyg profiad blaenorol o reoli prosesau o'r fath, yn y tîm a oedd yn gyfrifol am LIFT ac ar draws yr awdurdod lleol. Ar gyfer y ddau awdurdod lleol, cynhaliwyd y cyfarfod cynefino gyda Policy in Practice - a oedd fel arfer ond yn digwydd ar ôl i'r cytundebau data fod yn eu lle - ym Mehefin 2025, bron i 6 mis ar ôl i'r cynllun peilot ddechrau.

**Defnyddio LIFT**

Y cam gweithredu yw'r man lle roedd y ddwy astudiaeth achos awdurdod lleol Math A yn gwahaniaethu rhywfaint.

**Enghraifft 1:** Fe wnaethant nodi anghywirdebau yn y data a echdynnwyd o LIFT, yn bennaf yn ymwneud â darpar hawlwyr Lwfans Gweini a Chredyd Pensiwn. Yn benodol, canfuwyd bod cyfran sylweddol o'r unigolion a nodwyd naill ai eisoes yn derbyn y budd-daliadau neu nad oeddent yn gymwys. Er mwyn gwella cywirdeb y platfform, darparodd tîm yr awdurdod

lleol sy'n gyfrifol am LIFT setiau data ychwanegol, ond parhaodd pryderon ynghylch y data am gyfnod, gan gyfyngu ar ddefnydd yr awdurdod lleol hwn o'r offeryn. Yn y cyfamser, parhaodd staff i ddibynnu ar ddadansoddi data â llaw gan ddefnyddio systemau mewnol, a oedd yn fwy dibynadwy yn eu barn nhw, er ei fod yn llawer arafach. 2 swyddog sydd yn y tîm, ac felly cynyddodd y gwaith ychwanegol oedd ei angen i wirio a chywiro allbynnau LIFT y pwysau gwaith yn hytrach na'i leihau.

**Enghraifft 2:** Roedd heriau trefniadol mewnol yn cyfyngu ar y defnydd o LIFT. Aeth y tîm drwy ailstrwythuro ac mae'n gymharol fach, gyda'r staff sydd â mynediad at y platfform hefyd yn gyfrifol am ddyletswyddau eraill gyda blaenoriaeth uwch, sy'n golygu nad oeddent yn gallu gweithio ar LIFT yn llawn amser. Yn ogystal, roedd cyfnodau pan oedd llai o staff ar gael oherwydd gwyliau blynyddol ac absenoldeb salwch yn cyfyngu ymhellach ar gapasiti'r tîm, gan arwain at adegau pan nad oedd y platfform yn cael ei ddefnyddio'n weithredol.

**Ymgyrchoedd**

**Enghraifft 1:** Oherwydd yr heriau o ran ansawdd data, dim ond ar ddechrau mis Ionawr 2026 y lansiodd yr awdurdod lleol hwn ymgyrch yn seiliedig ar LIFT. Mewn geiriau eraill, heb estyniad i'r cynllun peilot, byddai'n annhebygol y byddent wedi gallu gweld yr effeithiau. Amlygodd staff fod nodi hawlwyr yn anghywir wedi oedi'r gwaith allgymorth, gan y gallai cysylltu ag unigolion oedd eisoes yn derbyn budd-daliadau neu nad oeddent yn gymwys danseilio ymddiriedaeth a chreu dryswch.

**Enghraifft 2:** Oherwydd cyfyngiadau amser a phrinder staff, dim ond yng nghanol mis Rhagfyr 2025 y lansiwyd yr ymgyrch gyntaf ar gyfer Credyd Pensiwn.

**Profiad cyffredinol**

Adroddodd ein hastudiaethau achos Math A fod y profiad cychwynnol o LIFT yn rhwystredig, yn bennaf oherwydd oedi wrth gyrchu'r wybodaeth a'i dilysu, a'r amser a oedd ei angen i ddeall sut i ddefnyddio'r platfform yn effeithiol. Golygodd y gromlin ddysgu serth fod angen ymdrech sylweddol gan staff cyn y gellid defnyddio'r offeryn yn hyderus, gan gyfyngu ar y gwerth uniongyrchol y gallent ei gael ohono yn ystod cyfnod y cynllun peilot.

Fodd bynnag, wrth i'r materion hyn gael eu datrys yn raddol ac wrth i staff ddod yn fwy cyfarwydd â'r platfform, daeth eu profiad yn fwy cadarnhaol a'u rhwystredigaeth yn llai. Erbyn yr adeg yr oeddent yn gallu defnyddio LIFT yn fwy effeithiol, roedd cyfnod y cynllun peilot bron ar ben. Felly, roeddent yn teimlo y byddai cyfnod gweithredu hirach yn debygol o alluogi canlyniadau mwy ystyrlon. Mae eu dosbarthiad fel Math A yn adlewyrchu'r amser estynedig a oedd ei angen i gyrraedd defnydd hyderus ac effeithiol o'r platfform, wnaeth rwystro defnydd amserol a gwneud penderfyniadau, yn hytrach nag anallu i'w ddefnyddio.

## 5.2. Astudiaeth achos B

**Cynefino**

Profodd ein hastudiaeth achos Math B broses gynefino gymhleth a oedd yn destun oedi cyn gallu dechrau defnyddio LIFT. Yn yr ystyr hwn, roedd eu profiad cychwynnol yn rhannu rhai

nodweddion â phrofiad Math A. Daeth yr oedi yn bennaf o sicrhau cymeradwyaethau rhannu data, gyda gofynion timau TG mewnol a llywodraethu gwybodaeth yn ffurfio'r prif rwystrau. Dechreuodd y broses gynefino'n ffurfiol ym mis Mehefin 2025. Er gwaethaf yr oedi, fodd bynnag, disgrifiodd yr awdurdod lleol y profiad cynefino ei hun fel profiad cadarnhaol, gan bwysleisio'r cymorth a ddarparwyd gan Policy in Practice.

**Defnyddio LIFT**

Nododd ein hastudiaeth achos Math B fod gan platfform LIFT gromlin ddysgu serth, ond pan oedd staff wedi dod yn gyfarwydd â'i swyddogaethau, roeddent yn gallu echdynnu'r wybodaeth oedd ei hangen arnynt yn effeithiol (ac fe gyflawnwyd hyn yn gynharach nag mewn awdurdodau lleol Math A). Pwysleisiodd yr awdurdod lleol nad y platfform ei hun yw'r prif her, ond yn hytrach y capasiti sydd ei angen i ymgysylltu ag aelwydydd a phenderfynu ar y ffyrdd mwyaf priodol o gysylltu â nhw. Er bod LIFT yn werthfawr ar gyfer nodi buddiolwyr posibl, mae ei effaith yn dibynnu ar gael sgiliau, adnoddau a thîm penodol digonol i reoli'r broses gyfan - o ddadansoddi data a dylunio gohebiaeth i ddarparu cyngor a chefnogi cwsmeriaid i ddechrau hawliad. Felly, mae gwireddu potensial llawn LIFT yn gofyn bod elfennau eraill, yn ogystal â'r platfform ei hun, yn gweithio'n dda ac yn meddu ar ddigon o adnoddau.

Roedd defnyddio LIFT yn galluogi'r awdurdod lleol i archwilio'r data yn fwy manwl a chynhyrchu syniadau ar gyfer ymgyrchoedd posibl. Helpodd hefyd i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio posibl â thimau eraill o fewn yr awdurdod lleol, lle gallai mewnwelediadau data cyffredin gefnogi gwaith ar y cyd neu waith ategol.

Fe wnaeth awdurdod lleol gydnabod hefyd fod LIFT yn galluogi nodi nifer fwy o aelwydydd, ond nododd fod y data yn seiliedig ar sawl rhagdybiaeth, ac mai dim ond mewnwelediadau am bobl sydd eisoes yn hawlio rhyw fath o fudd-dal y gall eu darparu, gan mai dyma sail y data a ddefnyddir gan y platfform. Er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y data'n anghywir, nodwyd nad yw'n helpu i nodi pobl nad ydynt yn y system o gwbl ar hyn o bryd. Mae'r dangosfwrdd yn caniatáu archwilio'r llwyth achosion presennol yn llawer mwy manwl, ond nid yw'n datrys y broblem o gyrraedd aelwydydd nad ydynt eisoes yn hawlio unrhyw un o'r budd-daliadau perthnasol. Mae hyn yn parhau i fod yn her fawr i awdurdodau lleol, ac yn gadael bwlch wrth nodi a chefnogi'r bobl hynny.

**Ymgyrchoedd**

Mae'r awdurdod lleol Math B wedi cymryd rhan mewn mwy nag un ymgyrch ar gyfer gwahanol fudd-daliadau, gan gynnwys Credyd Pensiwn, Lwfans Gweini, a FSM. Nid oes ganddynt staff amser llawn penodedig ar gyfer LIFT na chynnal ymgyrchoedd, felly mae amlder a maint ymgyrchoedd yn dibynnu ar argaeledd staff a'r math o ymgyrch. Yn eu profiad nhw, mae ymgyrchoedd postio torfol sy'n seiliedig ar dargedu eang yn tueddu i gynhyrchu lefelau cymharol isel o ymateb a derbyn. Maen nhw'n ffafrio cynnal ymgyrchoedd llai, wedi'u teilwra'n fwy, lle gallant gyfeirio amser ac adnoddau at ymgysylltiad mwy personol ac effeithiol. Er enghraifft, cynhyrchodd ymgyrch dorfol swm bach o dderbyn, tra teimlwyd bod ymgyrch lai, fwy personol, yn aml yn cynnwys galwadau ffôn neu ymweliadau cartref, wedi creu mwy o effaith.

Mae cofnodi canlyniadau yn parhau i ddigwydd yn bennaf â llaw ar gyfer yr awdurdod lleol Math B. Mae hyn yn golygu bod gwaith dilynol a mesur canlyniadau yn dibynnu ar staff yn adolygu achosion unigol ac yn cofnodi diweddariadau â llaw, sy'n cymryd llawer o amser ac yn anodd ei gynnal yn barhaus. Hyd yma, mae'r unig wybodaeth am ganlyniadau yn deillio o adborth staff, yn hytrach nag o LIFT. Er bod Policy in Practice wedi dangos swyddogaeth fwriadol y traciwr a'i botensial, nid yw eto wedi darparu canlyniadau ymarferol i'r awdurdod lleol hwn.

**Profiad cyffredinol**

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol Math B wedi cael profiad cadarnhaol o LIFT. Roeddent yn gallu defnyddio'r platfform i echdynnu gwybodaeth werthfawr a gefnogodd gynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd, gan ddarparu mewnwelediadau newydd a chyfleoedd ar gyfer effaith. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo ei bod yn bosibl y gellid cyflawni canlyniadau tebyg drwy ddulliau eraill yn y pen draw, er enghraifft drwy ddadansoddi'r data sydd gan awdurdodau lleol eisoes yn fewnol. Cyfyngiad arall oedd amser, gan nad oedd yr awdurdod lleol wedi cael mynediad i ddefnyddio LIFT tan fis Gorffennaf 2025, gan adael ffenestr fer yn unig i weithio gyda'r system. Roedd diffyg staff amser llawn penodedig ar gyfer y prosiect hefyd yn cyfyngu ar integreiddio LIFT yn gyflym i waith bob dydd.

## 5.3. Astudiaeth achos C

**Cynefino**

Profodd yr awdurdod lleol Math C broses gymeradwyo gymharol gyflym, yn fewnol a gyda sefydliadau allanol, er mwyn galluogi ailddefnyddio data. Cafodd yr holl drefniadau allweddol eu rhoi ar waith o fewn 3 mis cyntaf y cynllun peilot, gan ganiatáu i'r awdurdod lleol ddechrau defnyddio'r platfform a chynllunio ei ymgyrchoedd cyntaf erbyn mis Ebrill/Mai 2025. Gan eu bod eisoes wedi cyflwyno ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, roedd yr awdurdod lleol hwn yn gyfarwydd â gofynion data, prosesau adrodd TG, a dogfennaeth ailddefnyddio data, a wnaeth hwyluso'r cam cynefino yn sylweddol. Serch hynny, roedd rhai heriau yn ystod y cam cynefino o ran sicrhau cymeradwyaethau TG a chyfreithiol mewnol, ond darparodd Policy in Practice gymorth sylweddol, gan gynnwys templedi, canllawiau, cyngor a chyfathrebu rheolaidd, a helpodd i hwyluso profiad cynefino mwy llyfn.

**Defnyddio LIFT**

Nododd ein hastudiaeth achos Math C fod defnyddio'r dangosfwrdd yn syml ac yn sythweledol, gyda hidlwyr a oedd yn ymddangos yn gymhleth i ddechrau ond a ddaeth yn hawdd i'w defnyddio'n gyflym. Unwaith y daeth staff yn gyfarwydd â'i swyddogaethau, roedd yn galluogi nifer o ddadansoddiadau a fyddai wedi bod yn rhy drwm o ran adnoddau o'r blaen. Torrodd y platfform drwy rwystrau drwy gynnig hidlwyr helaeth a dadansoddiadau demograffig manwl, na fyddai timau mewnol wedi gallu eu cynhyrchu'n realistig ar eu pen eu hunain.

Wrth i'w hyder o ran defnyddio'r platfform gynyddu, fe wnaeth yr awdurdod lleol Math C ddarganfod nodweddion ychwanegol a oedd yn galluogi dadansoddi ar lefel stryd, aelwyd

ac unigolyn. Ehangodd hyn eu dealltwriaeth o botensial y platfform y tu hwnt i ymgyrchoedd cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau. O ganlyniad, trefnwyd sesiynau gwaith gyda meysydd gwasanaeth eraill o fewn yr awdurdod lleol, gan gynnwys timau addysg, cyflogaeth a thai, er mwyn archwilio defnydd ehangach o'r data.

**Ymgyrchoedd**

Mae'r awdurdod lleol Math C wedi gallu cynnal ymgyrchoedd ar gyfer amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys Credyd Pensiwn, Lwfans Gweini, PIP, Budd-dal Tai, a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Caniataodd hyn iddynt gyrraedd mwy o aelwydydd nag o'r blaen.

Mae LIFT wedi symleiddio'r broses o ddadansoddi data, cydlynu llythyrau, a rheoli camau dilynol ategol i ymgyrchoedd, megis negeseuon testun neu alwadau ffôn. Gall staff bellach ddadansoddi ymgyrchoedd, olrhain unigolion, a lawrlwytho rhifau cyfeirnod yn uniongyrchol. Mae hyn wedi lleihau'r ddibyniaeth ar dimau eraill yn sylweddol ac wedi cynyddu effeithlonrwydd.

Gwers allweddol o'u profiad oedd mai nodi aelwydydd targed yw'r cam cyntaf yn unig yn y broses. Mae ategu ymgyrchoedd llythyrau yn dod â chost. Mae angen i awdurdodau lleol gael cyllideb fewnol er mwyn gallu dilyn llythyrau gyda negeseuon testun, galwadau ffôn a gohebiaeth ychwanegol berthnasol. Heb y camau ategol hyn, mae effaith bosibl y platfform yn gyfyngedig, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymgorffori LIFT mewn prosesau a strategaethau gweithredol ehangach.

**Profiad cyffredinol**

Adroddodd yr awdurdod lleol Math C brofiad cadarnhaol o blatfform LIFT, yn enwedig o ran ei allu i nodi unigolion a allai fod yn gymwys i gael cymorth neu a allai elwa o gyfathrebu wedi'i dargedu. Mynegodd yr awdurdod lleol ffafriaeth gref i barhau i ddefnyddio'r platfform ac y byddent yn eiriol dros ei ddefnydd parhaus.

Roedd eu profiad cadarnhaol iawn o LIFT yn gyffredinol yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod wedi gallu ei ddefnyddio yn gynnar yn ystod y cynllun peilot, ar ôl proses gynefino llyfn a chyflym. Yn ei dro, mae hyn yn ymddangos yn gysylltiedig â hanes blaenorol yr awdurdod lleol hwn o ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn hawliadau a'i gynefindra cymharol â llywio rhai o'r materion llywodraethu data. Yn gyffredinol, mae'r astudiaeth achos hon - ac y gymhariaeth rhyngddi a'r astudiaethau achos eraill - yn pwysleisio bod pŵer offer megis LIFT yn cael ei gryfhau'n sylweddol pan fydd yn cael ei ategu gan gapasiti staff a sgiliau digonol, o ran defnyddio'r data ei hun yn ogystal â gweithredu arno. Un posibilrwydd cadarnhaol arall yw y gallai'r profiad o ddefnyddio LIFT helpu i wneud mwy o awdurdodau lleol yng Nghymru yn debyg i'r astudiaeth achos Math C yn y dyfodol.

# 6. Casgliadau a Gwersi a Ddysgwyd

Mae awdurdodau lleol wedi symud drwy gynllun peilot LIFT mewn ffyrdd amrywiol, gan ddechrau o wahanol fannau a chyrraedd gwahanol gamau o weithredu. Tynnodd y broses gynefino sylw at bwysigrwydd y cymorth a ddarparwyd gan Policy in Practice, a helpodd awdurdodau lleol i lywio cytundebau rhannu data cymhleth, cymeradwyaethau mewnol, a phrosesau anghyfarwydd. Ar yr un pryd, roedd angen i awdurdodau lleol adeiladu capasiti mewnol, gan gynnwys creu swyddi newydd, ail-leoli staff, a pharatoi timau, a oedd yn aml yn gofyn am amser ac adnoddau sylweddol cyn y gellid dechrau defnyddio'r offeryn yn llawn. Golygodd oedi wrth gael cymeradwyaethau a chyflwyno data fod awdurdodau lleol yn dechrau defnyddio LIFT ar wahanol adegau, gan gyfyngu ar y cyfnod o ddata cyson ar gael ar gyfer monitro ac ymgysylltu â phobl nad ydynt yn hawlio budd-daliadau. Yn gyffredinol, profodd camau cychwynnol y cynllun peilot fel y rhai mwyaf heriol. Yn yr achos mwyaf eithafol, roedd hi bron yn ddiwedd y cynllun peilot pan gyrhaeddodd un awdurdod lleol y pwynt lle gallai ddefnyddio'r offeryn yn effeithiol. Defnyddiodd y mwyafrif o awdurdodau lleol a gymerodd ran yr offeryn yn effeithiol, ond ar ôl rhywfaint o oedi.

Wrth ddefnyddio'r offeryn, galluogodd LIFT awdurdodau lleol i olrhain pobl gymwys nad oeddent yn hawlio budd-daliadau ac i dargedu gwaith allgymorth yn fwy effeithiol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Gredyd Pensiwn. Yn ddiweddarach, ehangodd rhai awdurdodau lleol ei ddefnydd i fudd-daliadau eraill, megis Lwfans Gweini a FSM. Fe wnaeth yr offeryn leihau'r baich gweithredol ar dimau Refeniw a Budd-daliadau a chaniatáu i awdurdodau lleol ddibynnu mwy ar dystiolaeth ac yn llai ar ragdybiaethau. Fodd bynnag, y cam hwn oedd yn dangos y gwahaniaeth mwyaf o ran llwyddiant rhwng achosion. Adroddodd awdurdodau lleol fod y manteision sy'n gysylltiedig â'r offeryn yn dibynnu ar gapasiti ac adnoddau staff i ddiweddaru data, rheoli gweithgareddau allgymorth, a dal i fyny gyda aelwydydd. Felly, roedd y rhai oedd yn brin o staff yn wynebu rhywfaint o anawsterau yn y cam hwn. Fel y pwysleisiwyd gan yr astudiaethau achos, mae effeithiolrwydd offer megis LIFT yn dibynnu'n fawr ar gapasiti staff digonol a'r setiau sgiliau priodol, i ddadansoddi'r data ac i weithredu arno. Mae rhagolwg cadarnhaol yn awgrymu y gallai'r profiad a gafwyd o ddefnyddio LIFT dros amser helpu mwy o awdurdodau lleol yng Nghymru i ddod yn debyg i'r astudiaeth achos Math C.

Nododd rhai awdurdodau lleol hefyd gyfyngiadau, megis anghywirdebau yn y data a chwmpas cyfyngedig. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu offeryn tebyg yn fewnol, golygodd cyfyngiadau o ran capasiti ac adnoddau, ynghyd â'r gofynion parhaus ar gyfer cynnal a rheoli data, fod LIFT yn cael ei ystyried yn opsiwn mwy ymarferol. Fodd bynnag, gallai offer dadansoddol gan gwmnïau eraill o bosibl gyflawni'r un diben. Fodd bynnag, trwy'r cynllun peilot, mae nifer o awdurdodau lleol wedi dysgu am werth data wrth helpu i ganolbwyntio ymdrechion i gynyddu derbyn hawliadau, ac maen nhw hefyd yn teimlo eu bod wedi dysgu'n benodol am blatfform LIFT y gallent adeiladu arno yn y dyfodol.

Er bod yr offeryn yn ddefnyddiol i nodi aelwydydd cymwys, mater i'r awdurdodau lleol yw sut maen nhw'n gweithredu ar y data hwn, a heb wneud hynny'n effeithiol ni ellir cyflawni canlyniadau. Mae'r mater hwn yn gyffredin i unrhyw offer dadansoddi data a ddefnyddir.

Roedd ymgyrchoedd cyfathrebu yn bennaf ar ffurf anfon llythyrau, ond yn aml byddant yn cael eu hategu gan negeseuon testun, galwadau ffôn, ymweliadau wyneb yn wyneb, ac ymgyrchoedd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd ehangach, megis ar gyfryngau cymdeithasol neu mewn hysbysebion ar safleoedd bysiau. Mae'r dulliau ymgysylltu wedi'u dylunio'n ofalus gan awdurdodau lleol, gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o ymgyrchoedd blaenorol, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd gan awdurdodau lleol eraill drwy'r cyfarfodydd rhaglen ac arfer gorau bob deufis. Er enghraifft, teimlai awdurdodau lleol fod ymgysylltu wedi'i dargedu'n fwy, a mwy dwys yn well na chynnal ymgyrchoedd llythyrau eang heb fawr o gymorth na gwaith dilynol. Mater pellach oedd diffyg ymddiriedaeth ymhlith preswylwyr yn yr ohebiaeth. Roedd rhai derbynwyr yn cwestiynu a oedd yr ohebiaeth yn ddilys, a oedd yn cyfyngu ar ymgysylltiad. Mae'r enghraifft hon yn dangos y gall cyfathrebu ar ei ben ei hun wynebu rhwystrau, yn gyntaf o ran p'un a yw'n cael ei agor, ac yna p'un a yw'n cael ei gymryd o ddifrif. Ymddangosodd fod cynnwys cyfeiriad at y cymorth sydd ar gael gan Cyngor ar Bopeth yn helpu i leihau'r pryderon hyn a chynyddu hygrededd. Yn y modd hwn, mae awdurdodau lleol wedi dysgu a mireinio eu dulliau dros amser, gan ystyried yr adborth a gawsant gan hawlwyr posibl a gan sefydliadau cymorth a chyngor.

Yn gyffredinol, mae'n debygol bod nifer yr ymgyrchoedd cyfathrebu a gynhaliwyd wedi cynyddu o ganlyniad i blatfform LIFT. Datblygwyd targed yr ymgyrchoedd hefyd, gan arwain at ganlyniadau gwell am gost is na'r hyn a fyddai wedi'i gyflawni heb LIFT. Ar gyfartaledd, dywedodd awdurdodau lleol wrthym fod pob un wedi targedu rhwng 100 a 250 o aelwydydd nad oeddent yn hawlio budd-daliadau ym mhob ymgyrch, ac adroddwyd bod tua 15% o'r aelwydydd hynny yn y pen draw yn derbyn dyfarniad budd-dal. Roedd hyn yn golygu tua 20 o ddyfarniadau ar gyfartaledd fesul awdurdod lleol yn dilyn ymgyrch. Wrth ystyried pob ymgyrch a'r holl fudd-daliadau a dargedwyd ym mhob awdurdod lleol, ar gyfartaledd, adroddwyd enillion ariannol blynyddol i hawlwyr budd-daliadau o tua £200,000. Yn y pen draw, cyfrannodd y cynllun peilot at gynyddu incwm rhai aelwydydd ac at welliannau mewn lles, gan gynnwys lleihau straen a phryder a chynyddu ymddiriedaeth yn y llywodraeth.

Er bod effeithiau o'r maint hyn yn bwysig, maen nhw'n gymedrol o gymharu â chyfanswm llif arferol hawliadau budd-daliadau newydd, neu â maint cyffredinol y diffyg derbyn. Mae hyn yn gyson â'n dadansoddiad o ddata cyfres amser cyfanredol ar hawliadau a dyfarniadau Credyd Pensiwn, nad yw'n dangos gwahaniaethau clir rhwng tueddiadau mewn awdurdodau lleol yng Nghymru wnaeth gymryd rhan a'r rhai na chymerodd ran. Serch hynny, mae derbyn budd-daliadau yn cymryd amser i wireddu, ac mae'n debygol bod o leiaf rhan o wir effeithiau'r cynllun peilot eto i ddigwydd.

Y tu hwnt i ganlyniadau mesuradwy, fe greodd y cynllun peilot gymuned ymarfer gref, gan alluogi awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth, dysgu o brofiadau'r naill a'r llall, a mireinio dulliau dros amser. Yn ogystal â hynny, ac yn bwysig, mae'n ymddangos bod llawer o werth y cynllun peilot wedi bod yn fuddsoddiad a phrawf o gysyniad i awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae'r mwyafrif ohonynt wedi dysgu gwersi gwerthfawr am sut i ddefnyddio data ac offer dadansoddol i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, ac y byddant yn gallu gwneud hyn yn fwy effeithiol yn y dyfodol (boed drwy ddefnyddio LIFT neu offer dadansoddol eraill). Mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi darganfod defnydd ychwanegol i blatfform LIFT y tu hwnt i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, gan nodi aelwydydd a

allai elwa o wasanaethau neu gymorth eraill. Yn gyffredinol, mae’r cynllun peilot hwn yn dangos y gall dulliau sy’n seiliedig ar ddata wella targedu ac effeithlonrwydd gweithredol, ond bod awdurdodau lleol angen staffio digonol, adnoddau, a chymorth parhaus er mwyn gwireddu ei botensial yn llawn.

# Atodiad A – Holiadur ar gyfer cyfweliadau cwmpasu (ac eithrio Policy in Practice)

Cyd-destun polisi

- Oes unrhyw gefndir polisi perthnasol y dylem ni fod yn ymwybodol ohono i ddeall diben sylfaenol y cynllun peilot yn well?
    - Awgrym: Beth oedd y broblem polisi roedd y cynllun peilot yn ceisio mynd i'r afael â hi?
    - Awgrym: Pam y dewiswyd dull sy'n seiliedig ar ddata?
- A oes unrhyw ffactorau neu gyd-destun allanol a allai effeithio ar weithrediad y cynllun peilot neu'r canlyniadau targed?
    - Awgrym: Etholiadau sydd ar ddod; Cyhoeddi'r Fframwaith Monitro Tlodi Plant; pwysau ariannol; newidiadau i fudd-daliadau datganoledig/wedi'u cadw'n ôl.

Nodau, amcanion, blaenoriaethau

- Beth yw nodau ac amcanion craidd cynllun peilot LIFT o'ch safbwynt chi?
- Pa fudd-daliadau ydych chi (neu Awdurdodau Lleol) yn eu monitro fwyaf?
    - Awgrym: datganoledig neu wedi'i gadw yn ôl, wedi'i dargedu at grwpiau oedran penodol neu ddemograffeg eraill? A yw'n amrywio'n fawr ar draws Awdurdodau Lleol?
- I ba raddau mae amcanion a blaenoriaeth ar gyfer rhoi'r cynllun peilot ar waith yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol?
- Beth ydych chi'n feddwl yw'r rhwystrau mwyaf i dderbyn budd-daliadau heddiw, a pham rydych chi'n meddwl bod yr offeryn hwn yn helpu i fynd i'r afael â nhw?
    - Awgrym: Y tu hwnt i nodi unigolion cymwys, mae derbyn yn dibynnu'n fawr ar sut mae Awdurdodau Lleol yn estyn allan atynt. Beth oedd y prif ddulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer hyn? Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, oedd Awdurdodau Lleol yn hyn o beth?
- A oes unrhyw nodau eilaidd y tu hwnt i wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau?
    - Awgrym: estyn allan at aelwydydd bregus ynghylch pethau heblaw derbyn budd-daliadau, er enghraifft gwasanaethau neu gymorth eraill y gallent elwa ohonynt?
    - Awgrym: adeiladu capasiti dadansoddol; profi datblygu mewnol; moderneiddio systemau data awdurdodau lleol; a gwella cydweithio rhwng adrannau? Ydych chi'n ymwybodol o Awdurdodau Lleol yn defnyddio offer dadansoddol mewn meysydd polisi eraill?

- Awgrym: A ystyriwyd yr enghreifftiau hyn yn llwyddiannus, a pha wersi a allai fod yn berthnasol yma?
- Awgrym: Ydych chi'n meddwl bod capasiti mewnol i ddatblygu offeryn fel hwn (o fewn Awdurdodau Lleol neu Lywodraeth Cymru)? Pam neu pam ddim? Sut allwch chi oresgyn cytundebau rhannu data?

Meddyliau ychwanegol - blaenoriaeth isel

- Pa mor awyddus oedd Awdurdodau Lleol i gymryd rhan yn y cynllun peilot?
    - Awgrym: Pa awdurdodau lleol oedd fwyaf awyddus- y rhai a oedd eisoes yn gwneud yr ymdrechion mwyaf ond yn aflwyddiannus? Y rhai nad oeddent yn gwneud llawer o ymdrechion ac a oedd yn ei weld fel dull cost isel? Ac ati.
- Sut fyddech chi'n disgrifio profiad Awdurdodau Lleol (hawdd neu heriol) wrth roi'r offeryn ar waith?
    - Awgrym: Beth oedd y prif heriau a sut y cawsant eu goresgyn? E.e. cyfreithiol, gweithredol, capasiti staff, hyfforddiant, ac ati.
    - Awgrym: A oedd yr heriau'n deillio'n bennaf o anawsterau o fewn Awdurdodau Lleol, neu o heriau neu gymhlethdodau gyda'r offeryn?
    - Awgrym: Problem pa mor fawr oedd y cytundebau rhannu data? Clywsom ei bod wedi cymryd hyd at 6 mis mewn rhai Awdurdodau Lleol
- A chwaraeodd Llywodraeth Cymru rôl wrth eu cefnogi, neu a ddaeth yr holl gymorth gan Policy in Practice?

Tystiolaeth/rhanddeiliaid

- A oes unrhyw adroddiadau neu lenyddiaeth allweddol y byddech chi'n argymell i ni eu hadolygu?
- A oes gennych chi unrhyw argymhellion ynghylch pa ddata i'w dadansoddi y tu hwnt i'r data monitro rydych chi wedi'u rhannu? Sut y gellir olrhain buddiolwyr ac unigolion sy'n gymwys?
- Allwch chi nodi unrhyw bobl a fyddai'n arbennig o ddiddorol i'w cyfweld? E.e. awdurdodau lleol penodol, sefydliadau'r trydydd sector, ac ati.
    - Awgrym ar gyfer Llywodraeth Cymru: Sut i gyrraedd cyfranogwyr/hawlwyr LIFT?

## Atodiad B – Holiadur ar gyfer cyfweliadau cwmpasu gyda Policy in Practice

Platfform LIFT

- Fe wnaethoch chi sôn am y partïon sy'n ymwneud â'r trefniadau rhannu data (e.e., y DWP, CThEF). Pa newidynnau neu setiau data mae pob un ohonynt yn eu darparu? Pa setiau data mae awdurdodau lleol yn eu darparu'n uniongyrchol?
- Sut gall awdurdodau lleol olrhain pwy sy'n gymwys ar gyfer budd-dal penodol ar y platfform? Pa newidynnau sydd wedi'u cynnwys? Allwch chi disgrifio neu ddangos i ni sut mae'r dangosfwrdd yn edrych?
- Ydy'r data'n cael ei arddangos ar lefel unigolyn, lefel aelwyd, neu ar lefel uwch o agregu?
- Ydy'r data yn ddienw, neu a oes gan awdurdodau lleol fynediad at wybodaeth bersonol?
- Pa unigolion sydd wedi'u cynnwys yn LIFT? Ydy hwn yn cynnwys pob unigolyn yn yr Awdurdod Lleol neu is-sampl penodol?
    - Awgrym: A oes potensial i ehangu hyn? Ar beth mae hynny'n dibynnu?
- Pa mor aml mae'r offeryn yn gofyn am fewnbynnau data, ac a oes ffordd o awtomeiddio hyn er mwyn osgoi rhoi baich amser sylweddol ar Awdurdodau Lleol?
- A all Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r offeryn neu'r dangosfwrdd i olrhain p'un a yw'r bobl maen nhw wedi cysylltu â nhw wedi hawlio'r budd-dal mewn gwirionedd?
- A oes unrhyw ddiffygion neu bethau y dylid bod yn ymwybodol ohonynt o ran y data?

Cynefino â'r cynllun peilot

- Pa weithgareddau oedd angen i awdurdodau lleol eu cyflawni ar ddechrau'r cynllun peilot? Er enghraifft, sefydlu timau newydd, hyfforddi staff, diweddaru data, ac ati.
- O ran cytundebau rhannu data, allwch chi egluro pa bartïon sy'n rhan o'r broses hon?
- Pam mae cytundebau data yn cael eu gwneud ar wahân ar gyfer pob Awdurdod Lleol?
- Sut ydych chi'n cefnogi Awdurdodau Lleol gyda materion rhannu data neu integreiddio data?
    - Awgrym: paratoi data, trefniadau diogelu data, hyfforddiant staff, ac ati.

Dros gyfnod y cynllun peilot

- Beth fu'r prif heriau neu'r pethau annisgwyl yn ystod cyflwyno'r cynllun peilot? Sut

cafodd y rhain eu trin?

- A oedd unrhyw awdurdodau lleol angen mwy o gymorth nag a ddisgwyliwyd?
- Pa nodweddion o offeryn LIFT ydych chi'n gweld Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn eu defnyddio'n fwyaf effeithiol, ac a oes unrhyw rai sy'n cael eu tan-ddefnyddio?

Ymgyrchoedd cyfathrebu a chanlyniadau

- Pa ddangosyddion neu dystiolaeth sy'n dangos effaith LIFT orau hyd yma?
    - Awgrym: Y tu hwnt i nodi unigolion, ydy'r offeryn yn annog ymgysylltu pellach, ac felly'n cyfrannu'n llwyddiannus at y nod o gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau?
    - Awgrym: Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o LIFT yn gwella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau neu'r cymorth i aelwydydd bregus?
- Beth fu prif lwyddiannau'r cynllun peilot yng Nghymru?
- A oes unrhyw ffactorau neu gyd-destun allanol a allai effeithio ar weithrediad y cynllun peilot neu'r canlyniadau targed?
    - Awgrym: Etholiadau sydd ar ddod; Cyhoeddi'r Fframwaith Monitro Tlodi Plant; pwysau ariannol; newidiadau i fudd-daliadau datganoledig/wedi'u cadw'n ôl.

Cynaliadwyedd a chyfeiriad ar gyfer y dyfodol

- Sut ydych chi'n gweld LIFT yn datblygu i gefnogi blaenoriaethau ehangach Awdurdodau Lleol (e.e. atal tlodi, ymyrraeth gynnar)?

# Atodiad C – Holiadur ar gyfer cyfweliadau gydag Awdurdodau Lleol sy’n cymryd rhan

### Nodau a blaenoriaethau

- Pa fudd-daliadau ydych yn canolbwyntio arnynt yn bennaf o ran cynyddu’r defnydd ohonynt drwy gynllun peilot LIFT?
- A oes unrhyw grwpiau penodol neu is-grwpiau o bobl gymwys nad ydynt yn derbyn budd-daliadau rydych chi’n canolbwyntio arnynt?

Cynefino â’r cynllun peilot

- Sut oedd eich profiad o’r broses gynefino ar gyfer y cynllun peilot? Wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?
- Ar y cam hwn, sut oedd eich profiad o ran rhannu data (h.y. trefniadau diogelu data)?
    - Awgrym: Pa mor hir a gymerodd hi cyn i chi allu dechrau defnyddio’r offeryn?
- Sut fyddech chi’n disgrifio’r sesiynau hyfforddi a’r cymorth a ddarparwyd gan Policy in Practice?

Dros gyfnod y cynllun peilot

- Er mwyn i’r offeryn weithredu’n effeithiol a pharhau’n gyfredol, pa dasgau oedd angen i chi eu cyflawni’n rheolaidd? Faint o faich oedd y tasgau hyn ar y cyngor?
    - Awgrym: amser, hyfforddiant, staff wedi’u neilltuo’n benodol i’r peilot hwn, diweddaru’r data, ac ati.
- Y tu hwnt i drwydded LIFT, a wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ariannu unrhyw staff, hyfforddiant neu weithgareddau ymgysylltu?
- Yn benodol, pa wybodaeth o’r offeryn ydych chi’n ei defnyddio i nodi pobl gymwys nad ydynt yn hawlio budd-daliadau? Sut mae’r wybodaeth honno’n cael eu harddangos?
    - Awgrym: Allwch chi olrhain y wybodaeth ar lefel unigolyn yn y dangosfwrdd? Beth yw’r prif newidynnau rydych chi’n edrych arnynt?
- I ba raddau wnaeth yr offeryn eich helpu i nodi achosion na fyddech chi wedi’u nodi fel arall?
- Pa heriau neu rwystrau a wynebwyd wrth ddefnyddio’r offeryn? Allwch chi feddwl am unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i’r offeryn neu’r cynllun peilot?
- Yn eich barn chi, beth yw prif fanteision yr offeryn? Yn eich barn chi, pa agweddau sydd fwyaf gwerthfawr?

- Ydych chi’n meddwl eich bod chi wedi defnyddio’r offeryn i’w lawn botensial, neu a oes rhai budd-daliadau neu grwpiau targed neu setiau data y gellid eu defnyddio ymhellach?

Ymgyrchoedd cyfathrebu a chanlyniadau

- Pa rwystrau ydych chi’n eu gweld o ran gwella’r nifer sy’n derbyn budd-daliadau, hyd yn oed ar ôl nodi pobl gymwys nad ydynt yn hawlio?
- Beth oedd y prif strategaethau ymgysylltu rydych chi wedi’u defnyddio (neu’n bwriadu eu defnyddio) i gynyddu’r nifer sy’n derbyn budd-daliadau?
- Ydy’r offeryn yn darparu mecanwaith i olrhain p’un a yw’r bobl rydych chi wedi cysylltu â nhw wedi mynd ymlaen i hawlio budd-dal? Neu ydych chi’n clywed gan y bobl hynny’n uniongyrchol?
- Pa ymdrechion oeddech chi’n eu gwneud i gynyddu’r nifer sy’n derbyn budd-daliadau cyn cynllun peilot LIFT? Oedden nhw’n effeithiol?
- Er mwyn cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu yn y dyfodol, a fyddai angen cyrchu gwybodaeth sy’n cael ei diweddaru’n barhaus, neu ydy’r wybodaeth sydd gennych chi ar hyn o bryd yn ddigonol?
- Pa mor effeithiol ydych chi’n meddwl mae’r ymgyrchoedd cyfathrebu wedi bod o ran cynyddu’r nifer sy’n derbyn budd-daliadau? Pam?
    - Awgrym: Allwch chi ddarparu unrhyw ffigurau? E.e. faint gynyddodd y nifer sy’n derbyn budd-daliadau dros y cyfnod hwn?
- Wnaethoch chi ymgysylltu ag unrhyw rai o’r sefydliadau canlynol? Sut?
    - Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
    - Anabledd Cymru
    - Age Cymru
    - Cyngor ar Bopeth
    - Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru
    - Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Awgrymiadau/myfyrdodau

- Pa rwystrau ydych chi’n eu gweld o ran datblygu a gweithredu offeryn dadansoddol fel LIFT yn fewnol?
- I ba raddau ydych chi’n dibynnu ar yr offeryn i barhau i weithredu’r gweithgareddau allgymorth hyn? Hynny yw, heb estyniad i’r cynllun peilot, a allech chi ddefnyddio’r gwersi a ddysgwyd a’r capasiti a adeiladwyd yn ystod y cynllun peilot 12 mis i estyn allan at bobl gymwys nad ydynt yn hawlio budd-daliadau?

# Atodiad D – Holiadur ar gyfer cyfweliadau gydag Awdurdodau Lleol nad ydynt yn cymryd rhan

Nodau a blaenoriaethau

- Beth yw prif flaenoriaethau eich awdurdod lleol o ran cynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau?
  - Awgrym: A oes budd-daliadau penodol neu grwpiau o drigolion lle rydych chi'n credu bod y nifer sy'n derbyn yn isel ar hyn o bryd?
  - Awgrym: Pa fudd-daliadau ydych yn canolbwyntio arnynt yn bennaf o ran cynyddu'r nifer sy'n eu derbyn?
- Pa offer, ffynonellau data neu brosesau ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd i nodi pobl gymwys nad ydynt yn hawlio budd-daliadau?

Rhesymau dros beidio â chymryd rhan

- Beth oedd prif resymau eich awdurdod dros beidio ag ymuno â chynllun peilot LIFT?
  - Awgrymiadau: capasiti, gofynion llywodraethu, adnoddau, amseriad, rhwystrau TG/data, ansicrwydd ynghylch gwerth, blaenoriaethau cystadleuol.
- Ydych chi'n teimlo bod gennych chi'n wybodaeth roeddech chi ei hangen ar y pryd i wneud y penderfyniad ynghylch a ddylech gymryd rhan ai peidio?

Ynghylch defnyddioldeb a disgwyliadau LIFT

- Yn seiliedig ar yr hyn rydych chi'n ei wybod, pa mor berthnasol neu werthfawr ydych chi'n meddwl y gallai offeryn fel LIFT fod i'ch awdurdod?
  - Awgrym: Pa agweddau ar offeryn o'r fath (os o gwbl) ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf buddiol i'ch gwaith?
  - Awgrym: Sut fyddai platfform LIFT yn gwneud gwahaniaeth i'ch prosesau presennol?
- A oes unrhyw fudd-daliadau lle rydych chi'n meddwl y byddai mewnwelediad data ychwanegol yn helpu'n sylweddol i gynyddu'r nifer sy'n eu derbyn?

Capasiti ac adnoddau

- Pa wybodaeth yn union ydych chi'n ei defnyddio er mwyn nodi pobl rydych chi'n meddwl sy'n gymwys ond nad ydynt yn hawlio'r budd-daliadau hynny?
- A oes gennych chi staff neu sgiliau wedi'u neilltuo ar hyn o bryd i waith dadansoddol sy'n ymwneud â'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau?
- Pa gymorth fyddai fwyaf defnyddiol gan Lywodraeth Cymru i wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau yn lleol?

- A oes rhwystrau systemig neu strwythurol sy’n ei gwneud yn anodd nodi trigolion cymwys?
- Pa fathau o ddata neu fewnwelediad fyddai’n cael yr effaith fwyaf ar waith eich awdurdod?

Ymgyrchoedd cyfathrebu a chanlyniadau

- Pa heriau rydych chi’n eu hwynebu wrth geisio codi ymwybyddiaeth neu annog pobl i dderbyn budd-daliadau?
- Beth ydy’r prif strategaethau ymgysylltu rydych chi wedi’u defnyddio (neu’n bwriadu eu defnyddio) i gynyddu’r nifer sy’n derbyn budd-daliadau?
- Pa rwystrau ydych chi’n eu gweld o ran gwella’r nifer sy’n derbyn budd-daliadau, hyd yn oed ar ôl nodi pobl gymwys nad ydynt yn hawlio?

Awgrymiadau/myfyrdodau

- O dan ba amgylchiadau fyddai eich awdurdod yn ystyried defnyddio offeryn fel LIFT yn y dyfodol?
    - *Awgrymiadau: trwydded wedi’i hariannu’n llawn, staff wedi’u neilltuo, trefniadau llywodraethu data cliriach, tystiolaeth o effaith, proses gynefino symlach.*
- A oes unrhyw welliannau neu nodweddion a fyddai’n gwneud yr offeryn yn fwy deniadol i’ch cyngor?

## Atodiad E – Holiadur ar gyfer cyfweliadau dilynol gydag Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan

Myfyrdodau ers y cyfweliadau cychwynnol

- Ers i ni siarad ddiwethaf, ydych chi'n dal i ddefnyddio LIFT?
    - Os ydych: Oes unrhyw beth wedi newid o ran y ffordd rydych chi'n defnyddio LIFT?
    - Os na: Pam nad ydych chi'n ei ddefnyddio mwyach?

Ymgyrchoedd cyfathrebu a chanlyniadau

- Tua faint o lythyrau neu ddogfennau cyfathrebu a anfonwyd ar ôl defnyddio'r LIFT?
- Wnaethoch chi weld cynnydd yn y nifer sy'n derbyn budd-daliadau yn dilyn yr ymgyrchoedd hyn? Allwch chi rannu unrhyw ffigurau?
- Ydych chi wedi gwirio'n systematig p'un a yw pawb y cysylltwyd â nhw wedi gwneud cais?
    - Os na, beth yw cyfyngiadau eich data?
- Allwch chi ddisgrifio cynnwys y llythyrau neu'r ohebiaeth a anfonwyd drwy LIFT? (Allech chi rannu copi o'r llythyr?
    - A oeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar godi ymwybyddiaeth o gymhwystra?
    - A oeddent yn cynnwys canllawiau ar sut i wneud cais?
    - A gynigiwyd cymorth (e.e. llinellau cymorth, cyfeiriadau at wasanaethau eraill, neu gyswllt dilynol)?
    - A oedd stigma yn cael ei drafod yn benodol yn y geiriad?
- Allwch chi gysylltu'r cynnydd mewn ceisiadau neu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau yn uniongyrchol â LIFT?
    - Pa mor hyderus ydych chi yn y ffigurau hyn?
- Pa elfennau ydych chi'n meddwl oedd bwysicaf wrth annog pobl i weithredu? A wnaethoch chi brofi neu addasu'r negeseuon dros amser?
- Ar wahân i lythyrau, wnaethoch chi gynnal allgymorth **wedi'i dargedu** ar gyfer aelwydydd mewn unrhyw ffyrdd eraill?
    - Er enghraifft, ar ôl anfon 100 o lythyrau, cawsom 35 o hawliadau.
    - A oes grwpiau penodol lle'r oedd y nifer sy'n dechrau derbyn budd-daliadau'n ymddangos yn uwch neu'n is?

- A oedd unrhyw ffactorau allanol (e.e. pwysau costau byw, negeseuon cenedlaethol, newidiadau mewn staff) a allai hefyd egluro newidiadau yn y nifer sy'n derbyn budd-daliadau?
- Pa ddata fyddai'n eich helpu i ddeall yn well a yw ymgyrchoedd fel LIFT yn gweithio?
- Ar wahân i'r allgymorth wedi'i dargedu sydd wedi'i hwyluso gan LIFT, pa ddulliau neu ymgyrchoedd ehangach eraill ydych wedi'u defnyddio i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau (e.e. cyfryngau cymdeithasol, allgymorth yn y gymuned, sefydliadau partner)?
- A yw unrhyw un o'r ymgyrchoedd hyn nad ydynt yn ymgyrchoedd LIFT wedi arwain at newidiadau amlwg yn y nifer sy'n dechrau derbyn budd-daliadau?
    - Os na, beth ydych chi'n meddwl yw'r rheswm dros hynny?
    - Sut fyddech chi'n cymharu effeithiolrwydd y dulliau hyn â LIFT?
- Pa rai o'r ymgyrchoedd hyn oedd eisoes ar waith cyn y cynllun peilot a pha rai sy'n newydd?

Effaith ariannol

- Ydych chi'n gallu amcangyfrif gwerth ariannol y budd-daliadau ychwanegol a hawliwyd o ganlyniad i'r ymgyrch?
- Lle bo'r data ar gael, faint o incwm ychwanegol oedd hyn yn ei gynrychioli i drigolion?
- Pa mor ddefnyddiol yw'r math hwn o ddata ariannol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y cyngor?

Adnoddau a rhannu data

- Faint o staff amser llawn sydd wedi'u neilltuo'n benodol i reoli neu gefnogi'r offeryn LIFT?
- Allech chi ddisgrifio'n fwy manwl yr heriau neu'r rhwystrau roedd yn rhaid i chi eu goresgyn o ran y trefniadau rhannu data ar gyfer LIFT?
    - Beth yn union roeddech chi'n gytuno iddo, a pha amodau yr oedd angen i'ch awdurdod lleol eu bodloni er mwyn i'r DWP/CThEF gymeradwyo'r trefniant?
    - Pa wersi a ddysgwyd o'r broses hon y gellid eu cymhwyso yn y dyfodol?
- Y tu hwnt i'r LIFT, ydych chi'n rhan o unrhyw fentrau rhannu data eraill sy'n gysylltiedig â Symleiddio Budd-daliadau Cymru?
    - Beth yw'r prif gyfyngiadau sy'n cyfyngu ar rannu data yn eich sefydliad neu gyda phartneriaid allanol?

Asesu a gwersi

- Pam oedd angen platfform trydydd parti fel LIFT, yn hytrach na datblygu ateb mewnol?
- Pa amodau sydd angen bod yn eu lle er mwyn i offeryn fel LIFT fod yn llwyddiannus?

Rhwystrau rhag derbyn budd-daliadau

- O'ch safbwynt chi, beth yw'r prif rwystrau sy'n atal trigolion cymwys rhag hawlio budd-daliadau?
    - Wnaeth LIFT helpu i fynd i'r afael ag unrhyw un o'r rhwystrau hyn? Os do, sut?
    - Pa rwystrau sydd angen sylw o hyd, a pham?

Casgliad

- Fel rhan o'n hymchwil, rydym ni am siarad â rhywfaint o hawlwyr budd-daliadau. A fyddai'n bosibl i chi rannu manylion cyswllt pobl rydych chi wedi'u nodi drwy LIFT ac sydd wedi gwneud cais am fudd-daliadau yn ddiweddar gyda ni?

# Atodiad F – Canllaw trafod ar gyfer grŵp ffocws gyda sefydliadau cyngor a chymorth

**Cwestiynau**

**Cyflwyniadau**

Croeso, a diolch am ymuno â ni heddiw. I ddechrau, gadewch i ni fynd o amgylch y grŵp a chyflwyno ein hunain.
Dywedwch wrthym ni:

- Beth yw eich enw cyntaf
- Y sefydliad rydych chi'n dod ohono
- Sut rydych chi wedi cefnogi Awdurdodau Lleol gyda phobl sy'n derbyn budd-daliadau

**Torri'r iâ a sbardun trafodaeth**

Rydym ni am ddechrau gyda gweithgaredd rhyngweithiol byr i gael teimlad o'r ystafell ac i gasglu gwahanol safbwyntiau cyn i ni ddechrau'r drafodaeth.

Rydym ni'n'n defnyddio offeryn o'r enw Mentimeter. Bydd hyn yn caniatáu i bawb ymateb yn breifat ar eu ffonau neu liniaduron, a byddwn yn gweld y canlyniadau'n ymddangos ar y sgrin mewn amser real. [Rhannwch y ddolen i Mentimeter]

**C1: Yn gyffredinol, pa mor heriol ydych chi'n meddwl yw derbyn budd-daliadau yng Nghymru heddiw i bobl?**




Beth sy'n eich synnu chi am y lledaeniad hyn? Beth sy'n cyd-fynd â'ch profiad chi? Fyddai unrhyw un yn hoffi siarad o safbwynt yr ochr ddim yn heriol / heriol?

Pam ydych chi'n meddwl ei fod [Ddim yn heriol / Heriol]? Allwch chi feddwl am sefyllfa benodol o'ch sefydliad sy'n dangos pam ei fod yn heriol neu ddim yn heriol?

[Mathau o fudd-daliadau a drafodwyd gan Awdurdodau Lleol: Budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd (Credyd Pensiwn, Prydau Ysgol am Ddim) neu lwfans gweini]

| Rhwystrau rhag derbyn budd-daliadau yng Nghymru |
|---|
| • Yn eich profiad chi, beth yw'r prif resymau pam nad yw pobl yng Nghymru yn hawlio'r budd-daliadau maen nhw'n gymwys amdanynt?<br>*Awgrymiadau: stigma; diffyg ymwybyddiaeth; sgiliau digidol; diffyg ymddiriedaeth mewn awdurdodau; cymhlethdod ceisiadau; systemau cyngor wedi'u darnio; gofynion dogfennau.*<br>• A oes grwpiau neu gymunedau penodol sy'n fwy tebygol o wynebu rhwystrau wrth hawlio budd-daliadau? Pam?<br>*Awgrymiadau: pobl ag anableddau; oedolion hŷn; gofalwyr; aelwydydd heb hawl i arian cyhoeddus; cymunedau gwledig; anghenion iaith Gymraeg.*<br>• Ydy'r prif rwystrau heddiw yn ymwneud yn fwy â nodi neu ymgysylltu?<br>*Awgrym: O ble mae'r rhwystrau hyn yn tarddu: dyluniad polisi, cyfathrebu, prosesau gweinyddol, diwylliant, neu rywbeth arall?* |
| **Profiad o weithio mewn sefydliadau i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau** |
| • Pa fath o waith mae eich sefydliad yn ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o fudd-daliadau a'r nifer sy'n eu derbyn?<br>*Awgrymiadau: digwyddiadau allgymorth, canolfannau galw heibio, llinellau cymorth, gwaith achos, ymgyrchoedd digidol, ymweliadau cartref, hyrwyddwyr cymunedol.*<br>• Pa ddulliau sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus, a pham?<br>*Cwestiwn dilynol: Ydyn nhw'n cyrraedd grwpiau penodol yn fwy effeithiol?*<br>• Pan fyddwch chi'n gweithio'n annibynnol, sut ydych chi'n nodi hawlwyr posibl a allai fod yn colli allan?<br>*Awgrymiadau: hunangyfeirio, cyfeiriadau gan bartneriaid, sesiynau wedi'u targedu, tystiolaeth anecdotaidd, gwybodaeth gymunedol* |
| **Profiad o weithio gydag Awdurdodau Lleol i wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau** |
| • Sut fyddech chi'n disgrifio eich profiad o weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau?<br>Ystyriwch drafod: sut mae gweithio gydag Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan. Er enghraifft, gallem ddysgu p'un a yw Awdurdodau Lleol yn cynnal allgymorth wedi'i dargedu fwy pan fyddant yn defnyddio LIFT, ac felly'n cael cyfradd llwyddiant uwch, o'i gymharu â |

phan fyddant yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol nad ydynt yn cymryd rhan, sydd â llai o syniad clir o bwy y dylent eu targedu.

- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y galw am gyngor neu gymorth (er enghraifft, mwy o gyfeiriadau, ymholiadau neu geisiadau am help)?

  *Awgrym: Pa ddulliau ydych chi wedi gweld Awdurdodau Lleol yn eu defnyddio a oedd yn wirioneddol effeithiol wrth gyrraedd pobl gymwys?*

- Ble ydych chi wedi profi heriau wrth weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ar ymgyrchoedd allgymorth neu godi ymwybyddiaeth?

- Pa ddulliau ydych chi wedi gweld Awdurdodau Lleol yn eu defnyddio a oedd yn wirioneddol effeithiol wrth gyrraedd pobl gymwys?

  *Awgrym: defnyddio cyfryngwyr dibynadwy; cyd-ddylunio gyda chymunedau; sesiynau allgymorth ar y cyd; cyfeiriadau cynnes.*

- Pa mor effeithiol mae Awdurdodau Lleol wedi bod wrth rannu gwybodaeth am drigolion cymwys neu gydlynu gweithgareddau allgymorth?

- Ble ydych chi'n teimlo mae gweithio mewn partneriaeth yn methu neu'n dod yn anodd, a pham?

  *Awgrymiadau: cyfathrebu; capasiti cyfyngedig; cyfrifoldebau aneglur; prosesau araf; rhwystrau rhannu data.*

- Ydy Awdurdodau Lleol yn agored i arbenigedd allanol gan elusennau cyngor a sefydliadau cymunedol?

  *Cwestiwn dilynol: Beth sy'n cryfhau neu'n gwanhau'r berthynas honno?*

**Barn am offer sy'n cael eu cymell gan ddata**

Rydym ni'n mynd i drafod eich barn am offer sy'n cael eu cymell gan ddata fel ffordd o fynd i'r afael â rhwystrau rhag derbyn budd-daliadau. Rydym ni'n defnyddio Mentimeter eto. Dilynwch y ddolen os gwelwch yn dda [Rhannwch y ddolen i Mentimeter]

**[Enghraifft o gwestiwn sbardun posibl]**

**C3: Ydych chi'n meddwl y gall offer sy'n seiliedig ar ddata (fel dangosfyrddau cymhwystra neu restrau wedi'u targedu) wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau yng Nghymru mewn gwirionedd?**

- 1 = Ni fydd offer data yn gwneud llawer o wahaniaeth
- 5 = Gallai offer data drawsnewid y nifer sy'n derbyn budd-daliadau




Beth sy'n eich synnu chi am y lledaeniad hyn? Beth sy'n cyd-fynd â'ch profiad chi? Fyddai unrhyw un yn hoffi siarad o safbwynt y asgell chwith eithafol / asgell dde eithafol?

- Ydy data'n helpu?
    - Ble gall offer data helpu i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau
    - Ble na all offer data helpu
    - Rhagamodau i offer data lwyddo (cyllid, gweithwyr achos, cyfeiriadau, rhannu data, ymddiriedaeth, ac ati)
- Pa fathau o rwystrau y gallai offer data helpu i'w goresgyn, a pha rwystrau fydd yn parhau ni waeth beth fo'r data?

  *Awgrym: da iawn ar gyfer nodi pobl gymwys ond yn llai effeithiol ar gyfer ymddiriedaeth, stigma ac ymgysylltu.*
- Pa alluoedd fyddai eu hangen ar sefydliadau i ddefnyddio offeryn fel LIFT yn effeithiol?
  *Awgrymiadau: recriwtio, hyfforddiant, cytundebau rhannu data, cyllid, cyfryngwyr cymunedol.*

**Argymhellion a chonsensws**

- Beth yw'r tri cham gweithredu pwysicaf y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol neu sefydliadau cyngor eu blaenoriaethu i wella'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau?
- Beth fyddai'n gam gweithredu tymor byr a beth fyddai'n newid tymor hwy?
- A oes unrhyw beth pwysig nad ydym wedi'i ofyn sy'n bwysig yn eich barn chi yn y drafodaeth hon?